# Gwella'r Hyn

# sy'n Bwysig...adolygiad o berfformiad yn 2012-13

*Adolygiad Perfformiad Blynyddol 2012-13*

City and County of Swansea
Dinas a Sir Abertawe

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| **1** | **Cyflwyniad** | **Tudalen 3** |
| **2** | **Rhan 1 – Crynodeb o hunanwerthusiadau o gyflawni Amcanion Gwella'r cyngor ar gyfer 2012/13** | **Tudalen 7** |
| **3** | **Rhan 2 – Gwerthusiadau llawn yn cyflwyno Amcanion Gwella'r cyngor ar gyfer 2012/13** | **Tudalen 10** |
| **3.1** | Amcan Gwella 1:<br>Sicrhau bod gan oedolion ifanc, pobl hŷn a gofalwyr fwy o ddewis a rheolaeth dros y gefnogaeth y maent yn ei derbyn trwy drawsnewid y gwasanaethau cymdeithasol i oedolion. | **Tudalen 10** |
| **3.2** | Amcan Gwella 2:<br>Sicrhau bod plant diamddiffyn yn cael eu diogelu a'u cefnogi trwy gynnal a pharhau â gwelliannau i'r gwasanaethau plant a theuluoedd. | **Tudalen 15** |
| **3.3** | Amcan Gwella 3:<br>Gwella deilliannau dysgu a helpu disgyblion i gyflawni eu potensial | **Tudalen 20** |
| **3.4** | Amcan Gwella 4:<br>Lleihau gwastraff a chynyddu compostio ac ailgylchu trwy hyrwyddo a hwyluso cyflwyno gwasanaethau rheoli gwastraff ac ailgylchu | **Tudalen 25** |
| **3.5** | Amcan Gwella 5:<br>Gwella cyflogadwyedd pobl trwy gynyddu effaith rhaglen adfywio'r cyngor i gynnig a hwyluso hyfforddiant a lleoliadau gwaith | **Tudalen 32** |

| | | |
|---|---|---|
| 4 | **Rhan 3 – Meysydd perfformiad allweddol eraill** | **Tudalen 39** |
| 5 | **Rhan 4 - Cydweithredu ag eraill yn 2012/13** | **Tudalen 42** |
| 6 | **Rhan 5 – Gwybodaeth gyhoeddus a'i defnydd** | **Tudalen 46** |
| 7 | **Ble i gael mwy o wybodaeth** | **Tudalen 58** |

## Cyflwyniad

Mae llawer wedi ei ysgrifennu am yr agenda newid sy'n wynebu'r sector cyhoeddus. Mae'r galw cynyddol am wasanaethau yn sgîl tueddiadau demograffig a disgwyliadau cyhoeddus cynyddol yn yrrwr di-ildio ar gyfer newid a gwelliant. Bydd yr hinsawdd economaidd yn rhoi pwysau ar gyllidebau'r sector cyhoeddus a cheisio arbedion effeithlonrwydd yn barhaus.

Er gwaethaf y pwysau hyn, mae dyletswydd ar y cyngor i geisio rhagoriaeth, gwelliant ac effeithlonrwydd gwasanaethau. Rhaid i ni wneud hyn yn ein sefydliad ni a thrwy weithio gydag awdurdodau lleol eraill, Llywodraeth Cymru, cyrff eraill y sector cyhoeddus a'r trydydd sector ac yn bwysicach, gyda chymuned Abertawe.

Mae Cynllun Gwella Corfforaethol 2012/13 yn ymwneud yn benodol â gwella gwasanaethau ac ymrwymiad y cyngor i amddiffyn gwasanaethau rheng flaen.

Amlinellodd y Cynllun Cymunedol yn 2012/13 ein gweledigaeth yn ystod y cyfnod hwn o fod yn Ddinas Ewropeaidd Unigryw erbyn 2020.

Mae ein rhaglen strategol yn cynnwys prosiectau allweddol i gyflwyno gwelliant eang a chynaliadwy, yn arbennig:

- AoS - codi safonau llythrennedd, cyrhaeddiad a chyflawniad.
- Gwasanaethau Plant a Theuluoedd - diogelu plant diamddiffyn mewn modd sy'n gynaliadwy.
- Gofal i Oedolion - trawsnewid gwasanaethau i ateb y galw cynyddol a hyblygrwydd gwasanaethau.
- Rhaglen y Gweithlu - moderneiddio arferion gwaith, systemau tâl ac arfarnu a chael gweithlu sy'n barod i wynebu'r heriau.
- Rheoli Gwastraff - cynyddu ailgylchu a mynd i'r afael â chostau sy'n prysur gynyddu.
- Gwasanaethau Hamdden - cyflwyno modelau newydd i gyflwyno gwasanaethau a chynyddu gweithgarwch corfforol a gwella iechyd ar yr un pryd.

Cynllun Gwella Corfforaethol 2012/13, ‘Gwella'r Hyn sy'n Bwysig’, oedd ymateb penodol y cyngor i ofyniad eithaf rhesymol Llywodraeth Cymru i gyhoeddi ein cynlluniau gwella yn erbyn amcanion penodol. Y Cynllun Gwella Corfforaethol (CGC) yw prif gynllun strategol y cyngor sy'n disgrifio blaenoriaethau gwella'r cyngor, sut i'w cyflawni a sut bydd llwyddiant yn cael ei fesur.

I weld Cynllun Gwella Corfforaethol 2012/13, cliciwch ar y ddolen ganlynol: Cynllun Gwella Corfforaethol 2012/13

Hunanasesiad y cyngor ei hun yw'r Adolygiad Perfformiad Blynyddol o'i berfformiad wrth gyflawni'r blaenoriaethau (a elwir yr 'Amcanion Gwella') a amlinellwyd yng Nghynllun Gwella Corfforaethol 2012-13.

**Beth oedd ein Cenhadaeth yn 2012/13?**

CYFLWYNO GWASANAETHAU O SAFON AR GYFER ABERTAWE FWY GWYRDD, DIOGEL A LLEWYRCHUS.

**Beth oedd y weledigaeth a rennir ar gyfer Abertawe yn 2012/13?**

Nod Abertawe o fod yn ddinas Ewropeaidd unigryw erbyn 2020. Creu Dinas a Sir:

- sy'n lle gwych i fyw ynddo
- sy'n cynnig dechrau gwych mewn bywyd
- sy'n darparu cyfleoedd addysg ardderchog
- sy'n ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel
- sy'n cynnal economi lewyrchus
- sy'n cynnal a hyrwyddo iechyd da
- sy'n darparu'r gwasanaethau gorau posib.

**Beth oedd ein hamcanion cymunedol yn 2012/13?**

1. Gwella amgylchedd Abertawe i bawb
2. Creu gwell Abertawe i'r holl blant a phobl ifanc
3. Sicrhau cyfleoedd addysg rhagorol i bawb yn Abertawe
4. Gwneud Abertawe'n fwy diogel i bawb
5. Gwneud Abertawe'n fwy ffyniannus i bawb
6. Gwella iechyd, gofal cymdeithasol a lles i bawb yn Abertawe
7. Gwneud gwell defnydd o'n hadnoddau.

**Beth oedd y pethau allweddol yr oeddem am eu gwella yn 2012/13?**

Mae'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru i bob cyngor gyhoeddi ei gynlluniau i wella'r hyn mae'n ei wneud a sut mae'n gwneud hynny. Y meysydd allweddol yr oeddem am eu newid oedd:

*1. Sicrhau bod gan oedolion ifanc, pobl hŷn a gofalwyr fwy o ddewis a rheolaeth dros y gefnogaeth y maent yn ei derbyn trwy drawsnewid gwasanaethau cymdeithasol i oedolion.*

*2. Sicrhau bod plant diamddiffyn yn cael eu diogelu a'u cefnogi trwy gynnal a pharhau â gwelliannau i'r gwasanaethau plant a theuluoedd.*

*3. Gwella deilliannau dysgu a chynorthwyo disgyblion i gyflawni eu potensial.*

*4. Lleihau gwastraff a chynyddu compostio ac ailgylchu trwy hyrwyddo a hwyluso cyflwyno gwasanaethau rheoli gwastraff ac ailgylchu.*

*5. Gwella cyflogadwyedd pobl trwy gynyddu effaith rhaglen adfywio'r cyngor i gynnig a hwyluso hyfforddiant a lleoliadau gwaith.*

**Sut caiff Adolygiad Perfformiad Blynyddol 2012/13 ei strwythuro?**

- **Rhan 1 – Crynodeb o werthusiadau o gyflawni blaenoriaethau gwella'r cyngor yn 2012/13** - Mae hon yn ddadansoddiad crynodeb lle mae'r cyngor yn cyflwyno casgliad cryno o'i werthusiad ei hun o'i berfformiad wrth gyflawni ei Amcanion Gwella yn ystod 2012/13.

- **Rhan 2 – Gwerthusiadau llawn o gyflawni blaenoriaethau gwella'r cyngor yn 2012/13** - Gwerthusiad llawn y cyngor ei hun o'i berfformiad wrth gyflawni ei Amcanion Gwella yn ystod 2012/13. Nod pob hunanwerthusiad yw ymateb i'r ystyriaethau canlynol:

- Y fantais neu'r effaith/canlyniad ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth.

- Sut mae perfformiad yn cymharu ag eraill.

- I bob Amcan Gwella, arfarniad beirniadol o farn y cyngor ar yr hyn mae wedi'i wneud a'r hyn y bydd yn ei wneud yn wahanol o ganlyniad.

- **Rhan 3 – Meysydd perfformiad eraill -** Mae gan y cyngor nifer o fentrau busnes pwysig eraill yn ogystal â'i Amcanion Gwella. Mae'r rhan hon yn amlygu gwaith penodol a wnaed yn y meysydd hyn yn ystod 2012/13 yn ogystal â gweithrediadau pob dydd y cyngor.

- **Rhan 4 - Cydweithredu ag eraill yn 2012/13 -** Bydd y cyngor bob amser yn ceisio cydweithredu â chynghorau eraill yng Nghymru i wella effeithiolrwydd ac effeithiolrwydd gwasanaethau. Mae'r rhan hon yn dangos sut mae'r cyngor yn cydweithredu ag eraill ar draws amrywiaeth eang o wasanaethau mewn rhai meysydd allweddol. Ceir mwy o wybodaeth am gyfraniad ein partneriaid at ein Hamcanion Gwella yn Rhan 2 yr Adolygiad Perfformiad Blynyddol.

- **Rhan 5 – Gwybodaeth perfformiad a'i defnydd -** Mae'n rhaid i'r cyngor gynllunio pa wasanaethau y bydd yn eu cyflwyno gyda'r adnoddau sydd ar gael. Mae'n rhaid i'r cyngor sicrhau bod ei wasanaethau'n diwallu anghenion a dyheadau pobl Abertawe a'u bod yn effeithiol ac yn darparu gwerth am arian. Dengys y rhan hon sut mae'r cyngor yn cynllunio gwelliannau ac yn rhoi trefniadau ar waith ar eu cyfer.

**Sut gallwch chi gymryd rhan a chynnig Amcanion Gwella newydd yn ystod y flwyddyn?**

Mae'r cyngor wedi creu cronfa ddata ymgynghori bartneriaeth i roi mynediad hawdd i drigolion i'r ymgynghoriadau a gynhelir gan Gyngor Dinas a Sir Abertawe a'i bartneriaid, neu ar eu rhan.

Yma gallwch gael golwg ar yr ymgynghoriad, cael mwy o fanylion, a chanfod a allwch gymryd rhan trwy ddarparu adborth a sut i wneud hynny. Pan fydd ymgynghoriad wedi'i gwblhau, gallwch lawrlwytho unrhyw ganlyniadau/gylchlythyron perthnasol.

Dilynwch y ddolen i fynd i'r Gronfa Ddata Ymgynghori ar y dudalen nesaf.

www.swanseasays.org.uk

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu ymholiadau ynghylch y Gronfa Ddata, neu os ydych yn cael anhawster wrth ei defnyddio, cysylltwch â'r Cydlynydd Ymgynghoriadau, trwy ffonio 01792 637206, anfon ffacs i 01792 637206 neu e-bostio consultation@swansea.gov.uk

Gallwch gymryd rhan hefyd trwy fyrddau a phaneli craffu'r cyngor, sy'n agored i'r cyhoedd (gweler y ddolen isod)

http://www.abertawe.gov.uk/index.cfm?articleid=36785

neu gallwch gysylltu â Thîm Mynediad i Wasanaethau'r cyngor trwy ffonio 636907 neu e-bostiwch mynediadiwasanaethau@abertawe.gov.uk

Os ydych yn dymuno cynnig blaenoriaethau gwella newydd ar gyfer 2013-17, gallwch gysylltu â'r cyngor ar unrhyw adeg trwy e-bostio improvement@swansea.gov.uk neu ffonio 01792 636852.

## Rhan 1 – Crynodeb o hunanwerthusiadau o gyflawni Amcanion Gwella'r cyngor ar gyfer 2012/13

Mae'r rhan hon yn arfarniad cryno lle mae'r cyngor yn cyflwyno casgliad cryno o'i werthusiad ei hun o'i berfformiad wrth gyflawni ei Amcanion Gwella yn ystod 2012/13.

### Amcan Gwella 1

*Sicrhau bod gan oedolion ifanc, pobl hŷn a gofalwyr fwy o ddewis a rheolaeth dros y gefnogaeth y maent yn ei derbyn trwy drawsnewid gwasanaethau cymdeithasol i oedolion*.

| **Crynodeb o'r gwerthusiad** |
| --- |
| • Yn gyffredinol, mae'r cyngor wedi gwneud cynnydd tuag at ei Amcan Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion ac yn gwella'r cydbwysedd gofal i greu model mwy cynaliadwy lle bydd gan gleientiaid fwy o ddewis, rheolaeth a chyfle i fynegi eu barn ynglŷn â diwallu eu hanghenion. Erys rhai heriau sylweddol, megis gwella cydbwysedd gofal ar gyfer pobl hŷn ac, yn benodol, ar ddatblygu gallu ar draws y system i ateb y galw cynyddol â llai o adnoddau. |

### Amcan Gwella 2

*Sicrhau bod plant diamddiffyn yn cael eu diogelu a'u cefnogi trwy gynnal a pharhau â gwelliannau i'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd.*

| **Crynodeb o'r gwerthusiad** |
| --- |
| • Mae'r cyngor yn gwneud gwelliannau, yn bennaf trwy leihau nifer y cyfeiriadau i'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd; galluogi mwy o blant sy'n derbyn gofal i fyw'n agosach at eu cartrefi; a chefnogi mabwysiadu a maethu. Mae heriau o hyd o ran cydbwyso'r gwelliannau hyn â lleihau nifer y plant sy'n derbyn gofal yn ddiogel, diwallu anghenion plant y mae angen eu mabwysiadu a chynnal sefydlogrwydd lleoliadau. |

**Amcan Gwella 3**

*Gwella deilliannau dysgu a chynorthwyo disgyblion i gyflawni eu potensial.*

| **Crynodeb o'r gwerthusiad** |
|---|
| • Mae'r cyngor wedi dangos cynnydd mewn cyrhaeddiad addysgol ar draws pob un o'r prif feysydd wedi'i gynorthwyo gan welliannau sy'n cael eu gwneud ym maes llythrennedd. Mae mwy o gynnydd i'w weld hefyd wrth barhau i leihau nifer y plant ifanc sy'n NEET ac mae'r cyngor yn parhau i fwrw ymlaen â mentrau i leihau effaith tlodi ar ddysgu. Fodd bynnag, mae heriau o hyd o ran cyflymder y gwelliannau, yn enwedig o ran presenoldeb ysgol, a pharhau i wella perfformiad y cyngor o'i gymharu â gweddill Cymru. |

**Amcan Gwella 4**

*Lleihau gwastraff a chynyddu compostio ac ailgylchu trwy hyrwyddo a hwyluso cyflwyno gwasanaethau rheoli gwastraff ac ailgylchu*

| **Crynodeb o'r gwerthusiad** |
|---|
| • Mae'r cyngor wedi rhoi nifer o fentrau ar waith yn llwyddiannus sydd wedi cynyddu'n gyson swm y gwastraff y mae'n ei ailgylchu ac wedi lleihau swm y gwastraff sy'n cael ei anfon i safleoedd tirlenwi. Mae boddhad y cyhoedd gyda gwasanaethau ailgylchu'r cyngor yn dda. Fodd bynnag, er gwaethaf y gwelliannau hyn, methodd y cyngor fodloni'r targed ailgylchu statudol yn 2012/13 ac mae ei berfformiad yn wael o'i gymharu â chynghorau eraill yng Nghymru. Fodd bynnag, mae gan y cyngor gynlluniau ar waith i gynyddu'r gyfradd ailgylchu ymhellach a gwella'i berfformiad cenedlaethol ac mae'n rhagweld y bydd yn bodloni'r targed ailgylchu statudol ar gyfer 2015/16. |

## Amcan Gwella 5

*Gwella cyflogadwyedd pobl trwy gynyddu effaith rhaglen adfywio'r cyngor i gynnig a hwyluso hyfforddiant a lleoliadau gwaith*

| **Crynodeb o'r gwerthusiad** |
| --- |
| • Trwy'r prosiect Y Tu Hwnt i Frics a Morter (YTHFM), mae'r cyngor wedi cynyddu nifer y prosiectau adfywio sy'n cynnwys cymalau budd cymdeithasol â'r nod o ddarparu cyfleoedd gwaith a hyfforddiant i'r rhai sy'n ddi-waith ac yn anweithgar yn economaidd. Weithiau mae YTHFM wedi cael trafferth cynnal llif yr hyfforddeion o sefydliadau cyfranogol ond mae hyn wedi cael ei ddatrys trwy gydweithio'n agosach â cholegau a busnesau. Bydd YTHFM yn cynyddu nifer y buddion cymdeithasol a gynigir yn y dyfodol trwy ehangu ei gyrhaeddiad i gynnwys contractau gwasanaeth a gofal.<br>• Er gwaethaf prinder staff yn ystod y flwyddyn a gyfyngodd ar ei gallu, cymerodd y fenter Gweithffyrdd fesurau priodol. O ganlyniad i hyn, cynyddodd nifer y bobl a oedd yn cael eu cyflogi o ganlyniad i'w cyfranogiad a gwellodd foddhad cyfranogwyr yn y cynllun. Mae'r cynllun Gweithffyrdd yn debygol o gael ei estyn yn y dyfodol a bydd angen mynd i'r afael â phrinder staff er mwyn parhau i gynnig cefnogaeth o safon i bobl sy'n ddi-waith neu'n anweithgar yn economaidd. |

## Rhan 2 – Gwerthusiadau llawn o gyflawni Amcanion Gwella'r cyngor ar gyfer 2012/13

Y rhan hon yw gwerthusiad llawn y cyngor ei hun o'i berfformiad wrth gyflawni ei Amcanion Gwella yn ystod 2012/13. Nod pob hunanwerthusiad yw ymateb i'r ystyriaethau canlynol:

- Y fantais neu'r effaith/canlyniad ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth.
- Sut mae perfformiad yn cymharu ag eraill.
- I bob Amcan Gwella, arfarniad beirniadol o farn y cyngor ar ei berfformiad hyd yma a'r hyn y bydd yn ei wneud yn wahanol o ganlyniad.

### Amcan Gwella 1:

### Sicrhau bod gan oedolion ifanc, pobl hŷn a gofalwyr fwy o ddewis a rheolaeth dros y gefnogaeth y maent yn ei derbyn trwy drawsnewid y gwasanaethau cymdeithasol i oedolion.

**Pam cafodd yr amcan hwn ei ddewis?**

- Mae poblogaeth sy'n heneiddio, cyllid cyhoeddus prin, costau cynyddol a disgwyliadau newidiol pobl y mae angen cefnogaeth arnynt gyda'i gilydd yn creu galw gwahanol a chynyddol ar y gwasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion.
- Mae hyn yn golygu y bydd mwy o alw am wasanaethau amserol sy'n ymatebol ac wedi'u teilwra i ddiwallu anghenion a'r hyn sydd orau gan bobl.
- Bydd gofyn hefyd am weld gwelliant parhaus wrth i ofal symud fwyfwy i gyfeiriad cefnogaeth yn y gymuned.

**Beth oedd ein nod?**

- Ein nod oedd sicrhau bod gan oedolion iau, pobl hŷn a'u gofalwyr fwy o ddewis a rheolaeth dros sut caiff eu hanghenion gofal cymdeithasol eu diwallu, trwy drawsnewid y ffordd o ddarparu gwasanaethau cymdeithasol i oedolion, sut darperir gwybodaeth a phrofiadau dinasyddion a'r gefnogaeth maent yn ei chael.
- Wrth sicrhau'r cydbwysedd priodol o ofal mewn gwasanaethau cymdeithasol cynaliadwy, mae'n amlwg mai'r nod yw cefnogi mwy o bobl i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain, trwy wasanaethau cymunedol a chefnogaeth i ofalwyr, ac annog ailalluogi yn hytrach na chynnal pobl trwy becynnau gofal hir dymor.

- Roeddem am symud o'r model presennol:
    - Yr angen i wella mynediad i wasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion, yn enwedig pobl hŷn sydd mewn perygl o aros yn yr ysbyty.
    - Gofal cymdeithasol sy'n seiliedig ar amrywiaeth traddodiadol o wasanaethau cymunedol a phreswyl.
- Yn benodol, roeddem am weld:
    - Llai o oedi i gleifion mewnol ysbyty cyn gadael yr ysbyty;
    - Cynlluniau gofal yn cael eu cwblhau a'u hadolygu'n brydlon ar gyfer mwy o bobl i sicrhau ein bod yn diwallu'r anghenion a nodwyd.
    - Pobl hŷn yn cael help i fyw gartref ac yn y gymuned yn hytrach nag mewn lleoliadau gofal.
    - Parhau i weithio gyda phartneriaid i ddarparu larymau cymunedol a thechnoleg gynorthwyol yn amserol.

**Beth rydym wedi'i wneud?**

- Dros y 12 mis diwethaf, mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion wedi canolbwyntio ar wella canlyniadau i'r teuluoedd sy'n defnyddio ein gwasanaethau. Rydym yn ymdrechu i sicrhau bod gan ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr fwy o gyfle i fynegi eu barn a mwy o ddewis a rheolaeth dros sut cânt eu cefnogi i gyflawni eu nodau.

- Eleni rydym wedi parhau i brofi pwysau ariannol gyda galw cynyddol ar y gwasanaethau cymdeithasol yn gyffredinol ond yn benodol mewn perthynas â phobl hŷn ac mae hyn wedi cael effaith ar adnoddau a rhai targedau perfformiad.

- Strategaeth Abertawe yw cefnogi dinasyddion i ystyried yr ystod lawn o ddewisiadau sydd ynghlwm wrth ddiwallu eu hanghenion gofal cymdeithasol, ond rydym yn parhau i nodi nifer uwch o bobl hŷn yn derbyn gwasanaethau, ac mae'r galw am ofal preswyl yn uchel o hyd.

- Mae'r Gwasanaethau i Oedolion yn llwyddo i gynnal lefel isel o drosglwyddo gofal a ohiriwyd trwy gydweithio'n agos â chydweithwyr yn y maes iechyd. Mae'r newidiadau'n cynnwys anfon pob cyfeiriad ysbyty trwy'r Tîm Derbyn gan ddefnyddio proses ar-lein, aildrefnu timau gwaith cymdeithasol ysbytai yn un tîm a chynnal dau weithdy Lleoliadau Brys gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol/cydweithwyr iechyd i wella'r llwybr cleientiaid rhwng gofal cymunedol ac mewn ysbyty a lleihau nifer y lleoliadau brys.

- Rydym wedi parhau i roi'r blaenoriaethau a amlinellwyd yn ein Fframwaith Strategol Comisiynu ar waith a'u monitro, gyda'r nod o wella amrywiaeth, safon a phrofiad gwasanaethau gofal cymdeithasol i'r holl grwpiau oedolion yn Abertawe, yn benodol gyda'r bwriad o gefnogi annibyniaeth cleientiaid yn y gymuned.

- Mae rhoi'r mesur iechyd meddwl ar waith yn gofyn bod targed o 100% o gynlluniau gofal yn cael eu hadolygu. Ymysg y gwelliannau rydym wedi'u gwneud, mae sicrhau ein bod yn nodi cleientiaid a gofalwyr gweithredol yn briodol; gweithio gyda thimau unigol i sicrhau bod cynlluniau gofal ar waith a bod adolygiadau'n cael eu cynnal yn ôl amserlen a gefnogir gan adroddiadau perfformiad tîm; a pharhau i ystyried ffyrdd eraill o gynnal adolygiadau priodol.

- Rydym yn cefnogi mwy o bobl yn eu cartrefi ond bu peth dirywiad yn yr amser a gymerir i gymhorthion a chyfarpar cynorthwyol gael eu dosbarthu a'u gosod. Rydym yn adolygu'r trefniadau meddalwedd newydd i sicrhau ein bod yn parhau i gasglu data am weithgareddau cyfarpar a gynhelir gan eraill dan ein trefniadau dirprwyedig.

**Beth oedd yr effaith a sut rydym yn cymharu ag eraill?**

- Yn Abertawe ar hyn o bryd, mae 7,957 o oedolion yn derbyn gwasanaethau gofal cymdeithasol (ffynhonnell: PM2 2012/13), sef cynnydd o 7.1% ar y flwyddyn flaenorol – gydag oddeutu 1,611 o bobl yn derbyn gofal preswyl a nyrsio (cynnydd o 4%) a 6,316 o bobl yn derbyn amrywiaeth o wasanaethau cymunedol (cynnydd o 7.7%).

- Mae Abertawe'n cefnogi mwy o oedolion iau yn y gymuned, gan fod y cydbwysedd gofal tuag at ddarpariaeth yn y gymuned bron â chyrraedd 98%, a'r llynedd roedd gan Abertawe'r bedwaredd gyfradd uchaf yng Nghymru.

- Er bod mwy o bobl hŷn yn derbyn gwasanaethau yn y gymuned, adroddodd Abertawe gydbwysedd gofal o 80% (y llynedd adroddwyd 79% a oedd y 3edd ganran isaf yng Nghymru).

- Yn gyffredinol, yn benodol trwy ein gwaith comisiynu, bu cynnydd yn y ganran o gleientiaid sy'n oedolion a gefnogir yn y gymuned yn ystod 2012/13 o'i chymharu â'r flwyddyn flaenorol. Roedd perfformiad yn well na chyfartaledd Cymru i gleientiaid rhwng 18 a 64 oed a hynny'n 97.72%, gan olygu bod Abertawe'n 2$^{il}$ yng Nghymru; fodd bynnag, roedd perfformiad yn is na chyfartaledd Cymru ar gyfer cleientiaid 65+, sef 80.21%, gan olygu bod Abertawe'n 18$^{fed}$ yng Nghymru yn 2012/13.

- Trwy weithio gyda phartneriaid iechyd, mae gan Abertawe erbyn hyn lai o bobl sy'n profi oedi wrth aros am drosglwyddiadau gofal am resymau gofal cymdeithasol eleni, a chyda'r cyfraddau llawer is, mae Abertawe wedi gwella 9 lle o'r 18$^{fed}$ i'r 9$^{fed}$ safle yng Nghymru.

- Bydd anghenion a chynnydd pobl sy'n cael eu hadolygu gan y gwasanaethau cymdeithasol yn ystod y flwyddyn yn cael eu hailystyried yn erbyn canlyniadau y cytunwyd arnynt a, lle bo angen, rhoddir cynlluniau gofal diwygiedig ar waith i ddiwallu eu hanghenion. Bu cynnydd o 9% yn nifer yr adolygiadau gofal a gynhaliwyd eleni o 76.9% yn 2011/12 i 83.2% yn 2012/13. O ganlyniad i hyn, mae Abertawe wedi gwella 6 lle o'r 15fed i'r 9fed safle yng Nghymru. Yn yr un modd, mae'r amser a gymerir rhwng yr ymholiad cychwynnol a chwblhau cynlluniau gofal wedi gwella o 29.92 o ddiwrnodau yn 2011/12 i 26.65 o ddiwrnodau yn 2012/13.

- Mae'r fanyleb wasanaeth ar gyfer cyfarpar cymunedol y cytunwyd arni ar y cyd (a gyd-drafodwyd â phartneriaid comisiynu eraill) yn pennu targed o ddosbarthu'r cyfarpar o fewn 7 niwrnod. Ni chyflawnwyd y targed hwn yn 2012/13 pan oedd perfformiad yn 7.32 ddiwrnod; ychydig yn llai na'r 7 niwrnod a gyflawnwyd yn 2011/12.

- Bydd gofyn i unrhyw welliant o ran dosbarthu cyfarpar cymunedol o fewn 7 niwrnod gael ei gyd-drafod â'r comisiynwyr. Fel rhan o brosiect Pobl Hŷn Bae'r Gorllewin, gyda chefnogaeth partneriaid ym Mwrdd Iechyd PABM rydym wedi cyflwyno cais rhanbarthol ar y cyd i Gronfa Technolegau Iechyd Llywodraeth Cymru i gefnogi'r cam nesaf o ddatblygu technoleg gynorthwyol a'r defnydd o dechnolegau i wella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd gweithwyr gofal cymdeithasol wrth gefnogi pobl i aros yn eu cartrefi.

- Disgwylir i'r duedd a ragfynegir i'r boblogaeth heneiddio gynyddu'r galw am wasanaethau gofal cymdeithasol dros y degawd nesaf. Mae disgwyliadau'n newid wrth i bobl ddymuno cael gwasanaethau lleol sy'n hyblyg ac yn ymatebol i'w hanghenion unigol.

- Ein sefyllfa bresennol:

    - Mae pobl yn fwy tebygol o brofi trefniadau clir, di-dor wrth gael eu rhyddhau o'r ysbyty i ddychwelyd i'w cartrefi eu hunain neu i gefnogaeth yn y gymuned.

    - Mae oedolion a'u gofalwyr yn llai tebygol o brofi oedi wrth aros i gael eu rhyddhau o'r ysbyty oherwydd oedi yn eu trefniadau gofal cymdeithasol.

    - Mae trefniadau comisiynu cryfach yn creu amrywiaeth o wasanaethau gofal cymdeithasol gwell ac o safon ar gyfer oedolion yn Abertawe (pob grŵp cleientiaid).

    - Mae pobl yn fwy tebygol o gael adolygiad gan y gwasanaethau cymdeithasol yn ystod y flwyddyn a fydd wedyn yn ailystyried eu hanghenion, yn gwerthuso cynnydd yn erbyn canlyniadau y cytunir arnynt a, lle bo angen, yn cytuno ar gynllun cefnogaeth wedi'i ddiweddaru.

- Rydym yn gwella'r amrywiaeth, yr ansawdd a'r profiad o wasanaethau gofal cymdeithasol sy'n canolbwyntio ar hybu annibyniaeth, a ddarperir i oedolion yn Abertawe.

**Beth byddwn yn ei wneud yn wahanol ?**

- Byddwn yn parhau ar y daith o gefnogi cleientiaid a'u teuluoedd i gael mwy o gyfle i fynegi eu barn a mwy o ddewis a rheolaeth i gyflawni eu nodau a gefnogir trwy gyflwyno Bil y Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru).

- Byddwn yn gweithio'n galed i sicrhau bod defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr, dinasyddion a staff yn ymwybodol o'r cyfeiriad a bennir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol.

- Dros y cyfnod nesaf, bydd angen i ni sicrhau bod pawb yn ymwybodol o'r pwysau ar y sector a sut byddwn yn wynebu'r heriau hynny gyda'n gilydd ac yn sicrhau bod dinasyddion a darparwyr yn rhan annatod o'r broses hon.

- Ein bwriad o hyd yw gwella'r cydbwysedd rhwng gofal preswyl/nyrsio a gofal yn y gymuned ar gyfer pobl hŷn.

- Byddwn yn ceisio hybu'r defnydd o dechnoleg gynorthwyol i gefnogi pobl a'u gofalwyr yn eu cartrefi eu hunain.

- Byddwn yn edrych ar allu ar draws y system gyfan gyda phartneriaid i sicrhau ein bod yn defnyddio adnoddau'n effeithiol i fodloni'r galw cynyddol, ac yn cydweithredu'n rhanbarthol i gomisiynu gwasanaethau lleol o safon.

- Ni allwn sicrhau bod ein gwasanaethau'n gynaliadwy oni bai ein bod yn rheoli'r galw'n fwy effeithiol a byddwn yn gwneud hynny trwy ddilyn ymagwedd fwy rhagweithiol at reoli disgwyliadau, dargyfeirio pobl at wasanaethau ataliol yn gynt a dilyn ymagwedd gadarnhaol at reoli risg.

- Byddwn yn parhau i ystyried ffyrdd o weithio sy'n fwy effeithiol a rhannu adnoddau ar draws y system gyfan lle mae'n gwneud synnwyr i wneud hynny. Byddwn yn parhau i ystyried cyfleoedd i gydweithredu trwy Raglen Ranbarthol Bae'r Gorllewin, trefniadau partneriaeth lleol gyda Bwrdd Iechyd PABM, cydweithredu agosach ar draws gwasanaethau'r cyngor a gwaith partneriaeth gyda'r sector annibynnol a thrwy ein rhwydweithiau cymunedol a'n trefniadau cynnwys dinasyddion.

| Crynodeb o'r gwerthusiad |
| --- |
| • Yn gyffredinol, mae'r cyngor wedi gwneud cynnydd tuag at gyflawni ei Amcan Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion ac yn gwella cydbwysedd gofal i greu model mwy cynaliadwy lle bydd gan gleientiaid fwy o ddewis, rheolaeth a |

chyfle i fynegi eu barn ynglŷn â diwallu eu hanghenion. Mae rhai heriau sylweddol yn parhau, megis gwella cydbwysedd gofal ar gyfer pobl hŷn ac, yn benodol, ar ddatblygu gallu ar draws y system i ateb y galw cynyddol â llai o adnoddau.

## Amcan Gwella 2:

## Sicrhau bod plant diamddiffyn yn cael eu diogelu a'u cefnogi trwy gynnal a pharhau â gwelliannau i'r gwasanaethau plant a theuluoedd.

**Pam cafodd yr amcan hwn ei ddewis?**

- Cyhoeddodd Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) Adroddiad Arolygu ar gyfer Gwasanaethau Plant a Theuluoedd ym mis Mawrth 2010.
- Dywedodd yr arolygwyr fod y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd wedi cyfnerthu ac adeiladu ar welliannau er gwaethaf cynnydd sylweddol mewn gweithgaredd.
- Mae gwasanaethau i blant a theuluoedd wedi parhau i wella. Fodd bynnag, roedd nifer o heriau sylweddol yn parhau ac roedd rhaid i Abertawe barhau â'r gwelliannau a oedd eisoes wedi'u cyflawni a pharhau i wella.
- Mae nifer y cyfeiriadau a'r ailgyfeiriadau sy'n dod i'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd bob mis yn uchel.
- Mae gan Abertawe nifer mawr o blant sy'n derbyn gofal.

**Beth oedd ein nod?**

- Tair blynedd yn ôl, amlinellodd y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd y dangosyddion a fyddai, dros amser, yn darparu model mwy cynaliadwy o wasanaethau cymdeithasol.
- Roedd y rhain yn cynnwys:
    - Llai o gyfeiriadau i wasanaethau cymdeithasol i blant.
    - Llai o blant yn cael eu hailgyfeirio at wasanaethau cymdeithasol i blant.
    - Llai o asesiadau cychwynnol.
    - Defnydd mwy o wasanaethau ymyrryd ac atal cynnar amlasiantaeth cydlynol.
    - Llai o blant y mae angen gwasanaethau i blant sy'n derbyn gofal arnynt.

  - Mwy o blant yn gadael y system gofal.

- Hefyd roedd y cyngor yn dymuno blaenoriaethu asesiadau mwy amserol lle roedd yr angen ar ei fwyaf neu lle roedd plant mewn perygl a lleihau nifer y plant sy'n derbyn gofal y mae eu trefniadau lleoli'n methu.

**Beth rydym wedi'i wneud?**

- Eleni, rydym wedi gwreiddio'r trefniadau mynediad newydd ymhellach yn ‘nrws blaen’ y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, y Tîm am y Teulu (TAT) fel modd o atal yr angen am ymyriad gan y gwasanaethau cymdeithasol yn y lle cyntaf a'r Panel Perfformiad, er mwyn hyrwyddo sefydlogrwydd i blant sy'n derbyn gofal.

- Rydym hefyd wedi cefnogi'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc i sefydlu cynllun peilot o'r ‘Prosiect Hyrwyddo Cynhwysiad’ gan dargedu 2 ysgol gyfun a'r ysgolion cynradd sy'n eu bwydo i ddechrau o'r ardaloedd ymwyaf difreintiedig yn Abertawe.

- Rydym wedi ffurfioli'r rhaglenni a'r mentrau amrywiol i gefnogi plant i ddod o hyd i rywle parhaol a lleihau'r arfer anghymesur o uchel o droi at wasanaethau i blant sy'n derbyn gofal yn Abertawe mewn modd diogel trwy ddatblygu strategaeth leihau 5 mlynedd drosgynnol ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal (PDG).

- Prif amcanion y strategaeth yw:

  - lleihau nifer y plant sy'n cyrraedd y system gofal mewn modd diogel.

  - cynyddu nifer y plant sy'n dod o hyd i rywle parhaol y tu allan i'r system gofal plant.

  - gwella canlyniadau i blant sy'n derbyn gwasanaethau gofal.

- Rydym yn parhau i gyflwyno Arwyddion Diogelwch ac arfer gwaith cymdeithasol sy'n canolbwyntio ar atebion a'u rhoi ar waith fel modd o fanteisio i'r eithaf ar gyfraniad plant a'u teuluoedd wrth ddatblygu atebion, gan symud o ymagwedd a arweinir gan wasanaethau i ymagwedd fwy cyfranogol.

- Lansiwyd y Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd ym mis Ionawr 2013 i ddarparu cefnogaeth well i'r plant a'r teuluoedd hynny yn ein cymdeithas sy'n wynebu anawsterau niferus. Er ei bod yn rhy fuan i werthuso'r effaith yn lleol, mae'r gwerthusiad o wasanaethau cyfwerth yng Nghymru'n darparu tystiolaeth gref bod y model ymyriad yn effeithiol.

- Hefyd aildrefnwyd gwasanaethau cymorth i deuluoedd i ddarparu gwasanaethau dwysach sy'n canolbwyntio ar atebion i gyd-fynd â datblygiad rhanbarthol Gwasanaeth Cymorth Dwys i Deuluoedd Bae'r Gorllewin (sy'n gweithio'n benodol mewn sefyllfaoedd lle mae perygl o deuluoedd yn chwalu o ganlyniad i gamddefnyddio sylweddau gan rieni).

- Mae ein strategaeth ar gyfer cyflawni canlyniadau da i blant sy'n derbyn gofal yn seiliedig ar rai egwyddorion allweddol:
    - Dylid cefnogi plant yn Abertawe sy'n derbyn gofal i fyw yn Abertawe neu mor agos ati â phosib fel y gellir darparu ystod lawn o wasanaethau lleol ar eu cyfer, gan gynnwys lefel uchel o gysylltiad â gweithwyr cymdeithasol, a'u galluogi i gynnal perthnasoedd diogel â'u teulu, eu ffrindiau a'u cymuned leol.
    - Dylid cefnogi plant yn Abertawe sy'n derbyn gofal i fyw mewn teulu ar ryw adeg yn eu plentyndod pryd bynnag y bo modd.
- Ein strategaeth yw recriwtio rhagor o ofalwyr maeth lleol, sy'n rhan allweddol o gyflawni 'r egwyddorion a amlinellir uchod.

**Beth oedd yr effaith a sut rydym yn cymharu ag eraill?**

- Mae peth tystiolaeth bod hyn yn dechrau cael yr effaith ddisgwyliedig:
    - Mae cyfeiriadau i'r gwasanaethau cymdeithasol wedi lleihau o 3,538 yn 2011/12 i 2,634 yn 2012/13.
    - Mae nifer y plant sy'n cael eu hailgyfeirio wedi gostwng o 1,094 i 733. Lleihaodd y ganran o gyfeiriadau a oedd yn ailgyfeiriadau o 30.9% yn 2011/12 i 27.8% yn 2012/13. Er bod honno'n dal yn waeth na chyfartaledd Cymru, symudodd Abertawe un lle o'r 17eg i'r 16eg safle yng Nghymru.
    - Mae nifer yr asesiadau cychwynnol wedi cynyddu ond ychydig iawn o 1,737 i 1,756 ond bu gwelliant yn y rhai a gwblhawyd yn ôl amserlen, o 77.8% yn 2011/12 i 84.4% yn 2012/13, a oedd hefyd yn well na chyfartaledd Cymru a symudodd Abertawe o'r 11eg i'r 9fed lle yng Nghymru.
    - Cwblhawyd 14% yn fwy o asesiadau craidd, gyda gwelliant yng nghanran y rhai a gwblhawyd yn ôl amserlen o 68.9% yn 2011/12 i 69.9% yn 2012/13, er bod hynny'n is na chyfartaledd Cymru a llithrodd Abertawe o'r 16eg i'r 19eg le yng Nghymru.
    - Mae nifer y cyfeiriadau i'r TAT wedi cynyddu i 369 gyda'r rhan fwyaf o'r cyfeiriadau gan y Gwasanaeth Iechyd ac Addysg, gyda 94% o deuluoedd yn derbyn cefnogaeth gan y gwasanaeth; ar hyn o bryd mae 26% o blant yn mynd ymlaen i fod yn blant mewn angen neu'n cael eu rhestru ar y Gofrestr Amddiffyn Plant.
    - Mae nifer y plant sy'n dechrau derbyn gofal eleni wedi cynyddu o 161 i 228 ond mae'n parhau'n llai na ffigur 2009/10, sef 255.
    - Er bod 100% o blant sy'n derbyn gofal yn dechrau eu lleoliad cyntaf gyda chynllun gofal ar waith, oherwydd nifer uchel y plant a oedd yn derbyn gofal roedd gan 91.9% ohonynt yn 2012/13 gynllun ar waith i ddod o hyd i gartref parhaol ar yr amser priodol

o'i gymharu â 95.5% yn 2011/12; er bod hynny'n well na chyfartaledd Cymru, gostyngodd Abertawe o'r 10fed i'r 15fed le yng Nghymru.

- Cynyddodd nifer y plant a adawodd y system gofal o 170 yn 2011/12 i 195 yn 2012/13.

- Er mai ein perfformiad wrth gefnogi mabwysiadu yw'r gorau yng Nghymru, mae nifer y plant sy'n ffafrio mabwysiadu fel eu cynllun o ddewis ar gyfer lleoliad parhaol yn dal yn fwy na hyn.

- Mae'r ffocws ar gynyddu nifer y mabwysiadwyr cymeradwy lleol a amlygwyd yn adroddiad y llynedd wedi gwella perfformiad gydag 20 o deuluoedd mabwysiol lleol yn cael eu cymeradwyo eleni. Er gwaethaf hyn, mae nifer y plant y mae angen iddynt gael eu mabwysiadu yn parhau'n uwch na'r teuluoedd mabwysiol lleol, neu hyd yn oed genedlaethol, sydd ar gael.

- Mae Maethu Abertawe wedi mynd yn gwbl groes i dueddiadau cenedlaethol o ran recriwtio trwy gyflawni cynnydd net o 31 o ofalwyr a 73 o leoliadau eleni. O ganlyniad, mae Maethu Abertawe wedi gwella safonau cenedlaethol yn ei gyfraddau o fynd o ymholiadau am faethu i gymeradwyo o 1 ym mhob 10 i 1 ym mhob 6. Enwebwyd y gwasanaeth maethu ar gyfer clod gofal cymdeithasol o ganlyniad i'r arfer eithriadol hwn.

- O ganlyniad i'r gwelliannau uchod, ni fu angen i unrhyw blant gael eu lleoli gydag asiantaethau maethu annibynnol prif ffrwd ers mis Hydref 2012.

- Gwellodd y cydbwysedd o roi plant mewn lleoliadau Maethu Abertawe yn erbyn y rhai a leolwyd gydag asiantaethau maethu annibynnol o gymhareb 50:50 i 53:47 y llynedd. O ganlyniad i'r strategaeth hon, roedd canran y plant sy'n derbyn gofal sy'n parhau i gael eu lleoli y tu allan i ranbarth De Cymru wedi'i lleihau i ffigur unigol (3%).

- Mae'r gwaith hwn yn dilyn llwyddiant ein cyfranogaeth â chomisiynu lleoliadau annibynnol yn rhanbarthol trwy gonsortiwm gwasanaethau plant a theuluoedd awdurdodau lleol De Cymru.

- Oherwydd y cyfuniad o waith lleol a rhanbarthol, mae'r gost uned am ddarparu lleoliad allanol wedi lleihau o 4% (gofal preswyl/maethu arbenigol) i 12% (preswyl arbenigol), gan gyflawni canlyniadau gwell i'r plant sydd wedi'u lleoli (cymharwyd y costau rhwng mis Mawrth 2012 a mis Mehefin 2012).

- Er nad ydym wedi llwyddo eto i gyflawni gostyngiad cynaliadwy, diogel yn nifer cyffredinol y plant sy'n derbyn gofal, mae mwyafrif llethol ein plant sy'n derbyn gofal bellach yn byw yn Abertawe neu o fewn 20 milltir iddi, sy'n cynyddu'r cyfle iddynt fanteisio ar wasanaethau ac yn cynyddu ein gallu i ddarparu'r gefnogaeth gwaith cymdeithasol a argymhellir gan AGGCC.

- Fodd bynnag, gall cefnogi plant mor agos at eu cartrefi â phosib, lle bynnag y bo modd, olygu newid lleoliadau sawl gwaith yn ystod y flwyddyn. Mae sefydlogrwydd lleoliadau plant yn gyffredinol wedi gostwng ychydig gyda 7.7% o blant sy'n derbyn gofal yn cael tri neu fwy o leoliadau yn ystod y flwyddyn o'i gymharu â 6.5% yn 2011/12, sy'n golygu bod Abertawe wedi llithro o'r 5ed i'r 7fed safle yng Nghymru.

- Yn olaf, mae'r adborth yn amlygu'r cynnydd rydym wedi'i wneud i geisio gwireddu ein dyhead i wella canlyniadau i blant trwy sicrhau bod eu barn wrth wraidd datblygu gwasanaethau a'r penderfyniadau a'r ymyriadau sy'n effeithio arnynt.

**Beth byddwn yn ei wneud yn wahanol?**

- Gwella canlyniadau i blant trwy leihau'r angen i ddefnyddio gwasanaethau i blant sy'n derbyn gofal yw'r agwedd bwysicaf oll wrth gyflwynol gwasanaethau cymdeithasol cynaliadwy i blant a theuluoedd yn y dyfodol.

- Yn ddiweddar, comisiynodd y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd Sefydliad Gofal Cyhoeddus (IPC) i gynnal adolygiad i ystyried Abertawe mewn perthynas â'r arfer gorau yng Nghymru a Lloegr. Mae'r *Adolygiad o'r Galw am Adnoddau mewn Gwasanaethau Plant a'r Defnydd Ohonynt* yn dod i nifer o gasgliadau cadarnhaol am sut mae Abertawe'n rheoli plant mewn angen a'r galw am wasanaethau. Byddwn yn gweithio gydag IPC i nodi unrhyw feysydd ychwanegol y mae angen i ni eu monitro er mwyn deall yn well sut gallwn leihau nifer y plant sy'n derbyn gofal sy'n cyrraedd y system.

| **Crynodeb o'r gwerthusiad** |
|---|
| • I grynhoi, mae'r cyngor yn gwneud gwelliannau, yn bennaf trwy leihau nifer y cyfeiriadau at y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd; galluogi mwy o blant sy'n derbyn gofal i fyw'n agosach at eu cartrefi; a chefnogi mabwysiadu a maethu. Erys heriau o hyd o ran cydbwyso'r gwelliannau hyn â lleihau nifer y plant sy'n derbyn gofal yn ddiogel, diwallu anghenion plant y mae angen eu mabwysiadu a chynnal sefydlogrwydd lleoliadau. |

## Amcan Gwella 3:

## Gwella deilliannau dysgu a helpu disgyblion i gyflawni eu potensial [1].

**Pam cafodd yr amcan hwn ei ddewis?**

- Yn gyffredinol, mae Abertawe wedi gwneud cynnydd da dros y blynyddoedd diwethaf o ran arolygiadau ysgolion, safonau cyflawniad addysgol a lleihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant yn 16 oed.

- Mae gennym rai o'r ysgolion sy'n perfformio orau yng Nghymru o hyd ond hefyd, yn anffodus, rhai sy'n perfformio waethaf.

- Mae'n rhaid i Abertawe barhau i wella'r perfformiad cenedlaethol ar gyfer plant 7 oed, 11 oed a 14 oed a pharhau i fynd i'r afael â ffactorau cymdeithasol neu deuluol, megis tlodi, sy'n effeithio ar ganlyniadau dysgu.

**Beth oedd ein nod?**

- Cefnogi a galluogi datblygu dysgu o fewn teuluoedd trwy ddefnyddio ymyrryd ac atal cynnar wedi'u targedu yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig.
- Parhau i gefnogi ysgolion a disgyblion a dargedwyd trwy'r Gwasanaeth Lles Addysg er mwyn gwella presenoldeb.
- Parhau â chyflwyno'r Strategaeth Llythrennedd fesul cam mewn ysgolion er mwyn helpu i wella llythrennedd a chyrhaeddiad addysgol.
- Gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael yn well trwy gyflwyno'r rhaglen Addysg o Safon (AoS) 2020 er mwyn gwella ansawdd yr amgylchedd dysgu a helpu i godi safonau cyflawniad.
- Parhau i nodi a chefnogi disgyblion sydd mewn perygl o fod yn NEET (heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant) pan fyddant yn 16 oed.

**Beth rydym wedi'i wneud?**

[1] Sylwer bod perfformiad 2012/13 a 2011/12 yn ymwneud â blynyddoedd academaidd 2011/12 a 2010/11 yn eu tro.

- Gellir priodoli'r llwyddiant yng Nghyfnod Allweddol 4 (16 oed) i ffocws hir dymor ar bynciau craidd (llythrennedd a rhifedd), dan arweiniad yr awdurdod, ac i ysgolion yn cynnig yr ystod lawn o gyrsiau i ddiwallu anghenion dysgwyr unigol.

- Dengys perfformiad gwell disgyblion ym mhob cyfnod allweddol effaith y ffocws gyson ar lythrennedd (a rhifedd) dros gyfnod hir. Mae'r sgiliau hyn yn hanfodol i ddisgyblion fanteisio ar y cwricwlwm llawn. Mae'r Strategaeth Llythrennedd mewn ysgolion wedi parhau i wreiddio'r '8 Ymddygiad Darllen' llwyddiannus ar draws pob ysgol. Mae hefyd wedi ehangu i gynnwys agweddau eraill ar lythrennedd.

- Bu gwelliant ym mhresenoldeb ysgolion cynradd ac uwchradd gyda Swyddogion Lles Addysg ac ysgolion yn defnyddio data presenoldeb lefel disgyblion amser go iawn a ddarperir gan ein systemau data i ddadansoddi tueddiadau a thargedu ymyriad amserol. Caiff presenoldeb ei fonitro'n ddyddiol yn yr ysgolion, gan gynnwys cynnal gwiriadau ar ddisgyblion sydd ar goll a chaiff rhieni eu hysbysu am yr absenoldebau hyn. Defnyddir hysbysiadau testun hefyd yn yr ysgolion cynradd ac uwchradd a chaiff timau cefnogaeth fugeiliol eu defnyddio i fonitro presenoldeb dyddiol a lles.

- Mae'r defnydd o dechnolegau symudol ar gyfer dysgu digidol yn cael ei ddatblygu trwy'r rhaglen gorfforaethol 'LIFE' sydd eisoes wedi bod yn effeithiol yn Ysgol Gynradd Casllwchwr ac Ysgol Gynradd Sea View. Mae 'LIFE' wedi ennill un o wobrau'r Municipal Journal (Mehefin 2013) yn ddiweddar. Nid yn unig y mae'r defnydd o dechnoleg yn annog ac yn cyfoethogi dysgu ond mae presenoldeb a lles disgyblion yn gwella oherwydd eu bod yn awyddus i fod yn yn yr ysgol.

- Mae arferion adferol yn cael eu gwreiddio mewn ysgolion ar draws Abertawe ac mae penaethiaid yn adrodd yn storïol bod hyn yn helpu i gefnogi dysgu a lles disgyblion. Mae arolygiadau allanol wedi cadarnhau'r effaith hon (er enghraifft yn Ysgol Gynradd Townhill ac YGG Bryn Tawe).

- Mae mentrau amlasiantaeth Abertawe i dargedu atal ac ymyrryd cynnar yn parhau ac mae gan Abertawe enw da cynyddol yn genedlaethol ac yn rhyngwladol am strategaethau atal ac ymyrryd cynnar blaengar sydd wedi cael effaith aruthrol ar droseddau ieuenctid yn ardal Abertawe. Bydd ehangu'r rhaglen Dechrau'n Deg yn creu mwy na mil o leoedd ychwanegol i blant ifanc mewn rhai o ardaloedd mwyaf difreintiedig Abertawe. Bydd lleoliadau Dechrau'n Deg newydd mewn ysgolion ac ehangu rhai lleoliadau presennol yn helpu pobl ifanc a'u teuluoedd trwy ddarparu gofal plant, ymweliadau iechyd, rhaglenni magu plant a sesiynau iaith a chwarae.

- Mae cynnydd wrth leihau NEETs yn parhau ac mae Abertawe wedi cael ei chydnabod yn genedlaethol. Mae'r prosiect NEETs yn defnyddio system goleuadau traffig i fonitro a chysylltu â phobl ifanc 15 i 18 oed a allai fod mewn perygl o adael yr ysgol yn 16 oed heb gymhwyster na lle mewn addysg bellach neu hyfforddiant ac mae'n teilwra'r math o gefnogaeth sy'n angenrheidiol i bob person ifanc.

- Disgwylir i'r rhaglen trefniadaeth ysgolion AoS 2020 leihau lleoedd dros ben yn y sector Saesneg ac yn ateb y galw cynyddol yn y sector Cymraeg. Crëwyd pedair ysgol Saesneg trwy gyfuno ysgolion ym mis Medi 2012. Agorwyd ysgol gynradd Gymraeg newydd ym mis Medi 2012 yn nwyrain Abertawe.

- Agorwyd adeilad newydd Ysgol Gyfun Cefn Hengoed ym mis Medi 2012 ac mae'r adeilad newydd Ysgol Gyfun Treforys yn mynd rhagddo yn unol â'i amserlen. Agorwyd Cyfleuster Addysgu Arbenigol newydd ar gyfer disgyblion oedran uwchradd ag AAA yn Ysgol Gyfun Llandeilo Ferwallt ym mis Medi 2012. Cymeradwywyd y Rhaglen Amlinellol Strategol ar gyfer Dechrau'n Deg gan Lywodraeth Cymru ym mis Mai 2012.

- Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi ei bod bellach yn awyddus i gyflwyno Band A o'r rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif dros 5 mlynedd yn hytrach na'r saith mlynedd flaenorol. Mae'r awdurdod yn ceisio cyllid gan Lywodraeth Cymru cyn gynted â phosib i gyflwyno ei gynlluniau blaenoriaeth Band A. Cymeradwyodd y Cabinet strategaeth ariannu ym mis Ebrill 2013 i ddarparu'r cyfraniad lleol angenrheidiol o 50%, hyd y gellir, trwy dderbyniadau cyfalaf o waredu tir dros ben ar safleoedd ysgolion. Fodd bynnag, cydnabu'r Cabinet yr angen am fenthyca tymor byr wrth wneud y gorau o werth y fath waredidau.

**Beth oedd yr effaith a sut rydym yn cymharu ag eraill?**

- Roedd pob dangosydd yng nghyfnodau allweddol 2 (7 i 11 oed), 3 (14 oed) a 4 (16 oed) yn uwch na chyfartaledd Cymru, yn uwch na'r lefel feincnodi ddisgwyliedig (a fyddai, yn ôl ffactorau amddifadedd, yn golygu bod Abertawe yn yr 16eg neu'r 17eg yng Nghymru) ac wedi'i rhestru'n uchel iawn mewn sawl achos.

- Canran y disgyblion a oedd yn cyflawni'r Dangosydd Pynciau Craidd[2] yng Nghyfnod Allweddol 2 oedd 83.6% i Abertawe yn 2012/13 (gwelliant o 80.8% yn 2011/12) ac 82.6% i Gymru. Rhoddodd hyn Abertawe yn 11eg o'r 22 awdurdod (yn Chwartel 2) yn lle'r 12fed safle i Abertawe yn 2011/12.

- Canran y disgyblion a oedd yn cyflawni'r Dangosydd Pynciau Craidd yng Nghyfnod Allweddol 3 yn Abertawe yn ystod 2012/13 oedd 73.3% (Cymru 72.5%), ac roedd Abertawe wedi'i rhestru'n 12fed. Mae hyn yn welliant ar y 68.4% a gyflawnwyd yn 2011/12 ond mae Abertawe'n parhau yn y 12fed safle yng Nghymru (Chwartel 3).

- Yng Nghyfnod Allweddol 4, nododd y dangosydd cymharol – Trothwy Lefel 2 gan gynnwys Saesneg/Cymraeg a Mathemateg – fod Abertawe'n perfformio hyd yn oed yn well, yn 8fed (Chwartel 2) gyda 54.6% o'i chymharu â ffigur Cymru, sef 51%.

---

[2] Mae'r dangosydd pynciau craidd yn dangos canran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig neu'n uwch yn Saesneg neu'n Gymraeg Iaith Gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth mewn cyfuniad

- Roedd pob dangosydd Cyfnod Allweddol 4 arall hefyd yn uwch na chyfartaledd Cymru, heb fod yn uwch na'r 13eg safle, ac roedd pob un yn Chwartel 2, heblaw am un yn Chwartel 3.

- Yr unig ddangosydd lle roedd Abertawe wedi cyflawni ei safle meincnod disgwyliedig o'r 16eg safle (Chwartel 3) yn unig oedd canran y disgyblion a oedd yn gadael addysg amser llawn heb gymhwyster cydnabyddedig (0.38%), ac roedd hyd yn oed y perfformiad hwn ychydig yn well na'r llynedd (0.43%) a Chymru (0.4%).

- Bu gostyngiad eto hefyd yng nghyfradd y bobl ifanc nad oeddent mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) o 3.1% yn 2011/12 i 2.9% yn 2012/13 o ganlyniad i'r ymdrechion amlasiantaeth i gadw mewn cysylltiad â phobl ifanc a'u hannog i ddal ati i ymwneud ag addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant.

- Mae presenoldeb wedi gwella yn yr ysgolion cynradd ac uwchradd ac mae'r duedd yn cynyddu yn y ddau sector. Gwellodd presenoldeb yn yr ysgolion uwchradd o 91% yn 2011/12 i 92% yn 2012/13 (Cymru 92.2%), un lle yn uwch na'r 16eg i'r 15fed safle yng Nghymru (Chwartel 3). Hefyd gwellodd presenoldeb yn yr ysgolion cynradd o 92.9% yn 2011/12 i 93.3% yn 2012/13 (Cymru 93.8%) ond gostyngodd Abertawe un lle yn is i'r 17eg safle yng Nghymru a'i roddodd yn y 4ydd Chwartel.

**Beth byddwn yn ei wneud yn wahanol?**

- Trwy ddadansoddi'r canlyniadau ar gyfer NEETs, gwelir y caiff mwy o welliant ei gyflawni trwy barhau i ganolbwyntio ar gefnogi grwpiau allweddol o ddysgwyr, megis y rhai o ardaloedd difreintiedig, y rhai ag anghenion addysgol ychwanegol a'r rhai sydd yn y perygl mwyaf o golli diddordeb.

- Mae hyfforddiant i ddatblygu llafaredd cynnar, pryder penodol mewn ardaloedd difreintiedig, yn cael ei gyflwyno ar draws ysgolion cynradd yn dilyn prosiect peilot. Mae ysgrifennu hefyd yn cael ei ddatblygu yng nghyfnodau allweddol 2 a 3 fel dilyniant naturiol o ddarllen.

- Caiff y rhaglen ‘LIFE’ ei hestyn os bydd arian ar gael i wneud hynny a bydd yr ysgolion sydd eisoes wedi elwa'n mentora cyfranogwyr newydd.

- Er gwaethaf y tueddiadau ar i fyny cyffredinol o ran presenoldeb, mae angen cyfradd gwelliant gyflymach, yn enwedig mewn ysgolion cynradd. Dyma fydd ffocws y gweithredu o fis Medi 2013 ymlaen. Bydd ymgynghorwyr cyswllt ysgol a'r Gwasanaeth Lles Addysg yn gweithio gydag ysgolion unigol i osod targedau newydd a mwy heriol a monitro perfformiad yn agosach nag yn y gorffennol.

- Bydd y Rhaglen Amlinellol Strategol ar gyfer Dechrau'n Deg yn creu lleoedd ychwanegol mewn lleoliadau presennol a newydd yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig a dargedwyd erbyn mis Mawrth 2014.

- Derbyniwyd caniatâd i fynd ymlaen i gam nesaf yr achos busnes ar gyfer adeilad newydd Ysgol Gynradd Burlais (Ysgol Gynradd Trefansel ac Ysgol Gynradd Cwmbwrla gynt) gan Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2013 fel rhan o'r strategaeth i gyflwyno Band A o'r rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif dros 5 mlynedd.

| **Crynodeb o'r gwerthusiad** |
|---|
| • Mae'r cyngor wedi dangos cynnydd mewn cyrhaeddiad addysgol ar draws pob un o'r prif feysydd wedi'i gynorthwyo gan welliannau sy'n cael eu gwneud i lythrennedd. Mae mwy o gynnydd i'w weld hefyd wrth barhau i leihau nifer y plant ifanc sy'n NEET ac mae'r cyngor yn parhau i fwrw ymlaen â mentrau i leihau effaith tlodi ar ddysgu. Fodd bynnag, mae heriau o hyd o ran cyflymder y gwelliannau, yn enwedig yn achos presenoldeb ysgol, a pharhau i wella perfformiad y cyngor o'i gymharu â gweddill Cymru. |

## Amcan Gwella 4:

## Lleihau gwastraff a chynyddu compostio ac ailgylchu drwy hyrwyddo a hwyluso cyflwyno gwasanaethau rheoli gwastraff ac ailgylchu.

**Pam cafodd yr amcan hwn ei ddewis?**

- Mae'r cyngor am annog dinasyddion i wneud eu rhan a chydnabod eu cyfraniad hwy at amddiffyn adnoddau cyfyngedig. Mae'r gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyngor leihau swm y gwastraff bioddiraddadwy a anfonir i safleoedd tirlenwi bob blwyddyn, neu bydd yn wynebu dirwyon am beidio â chyflawni'r targedau a bennwyd.

- Trwy sicrhau bod casglu gwastraff o ymyl y ffordd ar ei orau, rydym yn hybu ailgylchu gwastraff ac yn ceisio atal pobl rhag tipio sbwriel yn anghyfreithlon.

- Bydd lleihau swm y gwastraff a gynhyrchir ynghyd â chynyddu lefelau'r gwastraff sy'n cael ei ailgylchu/gompostio yn gwella'n gallu'n sylweddol i fodloni targedau Llywodraeth Cymru, osgoi dirwyon a helpu i ddiogelu adnoddau prin.

- Mae lleihau gwastraff a chynyddu compostio ac ailgylchu yn rhan effeithiol o'r strategaeth i leihau tipio anghyfreithlon.

**Beth oedd ein nod?**

- Yn 2010/11 roedd gan yr awdurdod gyfradd ailgylchu/compostio cyfunedig o 40% a fodlonodd darged statudol Llywodraeth Cymru ar gyfer y flwyddyn honno. Roedd yn amlwg ar yr adeg honno bod rhaid i ni amlinellu sut y byddem yn gwella ein perfformiad yn sylweddol ar gyfer y targedau nesaf.

- Lluniwyd Strategaeth Gwastraff Dinesig ddrafft ym mis Ionawr 2011 a fabwysiadwyd yn swyddogol ar ôl ymgynghoriad cyhoeddus gan y cyngor ym mis Mai 2012. Fodd bynnag, yn y cyfamser, defnyddiwyd y drafft fel sail i wneud unrhyw welliannau a gynlluniwyd yn ystod y cyfnod hwnnw.

- Mae'r strategaeth yn amlinellu sut mae'r Awdurdod yn bwriadu gweithio tuag at gyrraedd y targedau ailgylchu o 70% a bennwyd ar gyfer 2025 yn Strategaeth Genedlaethol Llywodraeth Cymru a chyflwyno cynllun gwella gwasanaeth pum mlynedd i gyrraedd targedau ailgylchu, compostio a thirlenwi hyd at 2016.

- Amlinellodd feysydd allweddol i'w gwella hefyd, a oedd yn cynnwys meysydd blaenoriaeth megis cyfranogiad ymyl y ffordd, safleoedd amwynderau dinesig a gwastraff masnachol.
- Rhoddwyd nifer o fentrau ar waith i'n galluogi i agosáu at y targed statudol ar gyfer 2012/13 o 52% yn ystod 2011/12.
- Roedd y mentrau'n cynnwys cyflwyno casgliadau ymyl y ffordd ar gyfer plastigau, ehangu casgliadau gwastraff cegin wythnosol i bob cartref a chyflwyno leinwyr gwastraff cegin am ddim. Y gwelliant olaf i'r gwasanaeth casglu o ymyl y ffordd oedd ehangu casgliadau wythnosol amgen ar gyfer gwastraff gweddilliol i bob cartref ym mis Ebrill 2011. Byddai hyn yn ein hysbysu ymlaen llaw o unrhyw gamau gweithredu angenrheidiol ymhell cyn gorfod bwrw'r targed statudol.
- Ein nod oedd parhau ag ymagwedd ragweithiol y cyngor i leihau tipio'n anghyfreithlon trwy orfodi a chysylltu a thrwy wella trefniadau casglu gwastraff.

**Beth rydym wedi'i wneud?**

- Cymeradwywyd cyllid ychwanegol gyda'r nod o wella ailgylchu yn y meysydd blaenoriaeth o fewn y dyraniad cyllideb ar gyfer 2012/13. Fodd bynnag, roedd yn anochel y byddai oedi wrth roi rhai o'r mentrau hyn ar waith tan yn ddiweddarach yn y flwyddyn neu cânt eu rhoi ar waith yn ystod 2013/14. Rhoddir manylion hyn yn yr adran ganlynol.
- Ystyriwyd cynigion i gyfyngu ar nifer y sachau du a gesglir er mwyn annog pobl i ailgylchu ar ymyl y ffordd ond fe'u gohiriwyd am fod yn rhy gynnar yn y cynllun.

**Cyfranogiad ymyl y ffordd**

- Dechreuodd ymgyrch curo ar ddrysau a oedd yn targedu 60,000 o aelwydydd ym mis Ebrill 2012 a daeth i ben ym mis Gorffennaf 2012. Mae'n anodd asesu unrhyw newidiadau o ran cyfranogiad heb gynnal rhagor o arolygon helaeth ond bu cynnydd bach yn y ffigurau ailgylchu ymyl y ffordd yn ystod y flwyddyn.
- Yr hyn a gyflawnwyd gan yr arolwg oedd ein hysbysu o ba ddulliau i'w defnyddio ar gyfer ymagwedd ddwys a dargedir at gynyddu cyfranogiad gyda chanlyniadau mesuradwy.
- Cynhaliwyd ymgyrch hysbysebu sylweddol i gyd-fynd â hwn yn ystod 2012/13 gyda'r nod o ofyn i breswylwyr ein helpu i gyflawni ein targed ailgylchu o 52%.

**Canolfannau Ailgylchu Gwastraff Cartref (CAGC)**

- Roedd ein cais am gefnogaeth dan Raglen Newid Gydweithredol Llywodraeth Cymru ddechrau 2012 yn llwyddiannus a chomisiynwyd astudiaeth o'n Safleoedd Amwynderau Dinesig (a ailfrandiwyd yn

Ganolfannau Ailgylchu Gwastraff Cartref yn 2012/13) a oruchwyliwyd gan WRAP.

- Prif amcan y prosiect oedd cynnal adolygiad cynhwysfawr o'r gwasanaethau a ddarperir ar hyn o bryd ym mhob un o'n pum CAGC a nodi dewisiadau sy'n benodol i bob safle i gynyddu perfformiad ailgylchu a lleihau'r costau cyffredinol lle bo modd. Cwblhawyd y prosiect ym mis Mawrth 2013.
- Cafodd gwelliannau a ariannwyd gan refeniw ychwanegol a glustnodwyd ar gyfer y safleoedd hyn eu gohirio tan ddiwedd y flwyddyn er mwyn i ni gael yr holl wybodaeth a argymhellwyd yn sgîl yr astudiaeth hon. Dechreuodd gwaith ar welliannau ar ddiwedd mis Mawrth.
- O ganlyniad i'r oedi hyn, parhaodd perfformiad y CAGC yn ddigyfnewid yn ystod 2012/13.

**Gwastraff Masnachol**

- Yn dilyn yr arfer blaenorol, strwythurwyd y prisiau sy'n cael eu codi i'n cwsmeriaid masnach mewn modd a fyddai'n annog ailgylchu a lleihau gwastraff gweddilliol. Roedd hyn yn cynnig taliadau llai ar gyfer casgliadau gweddilliol i'r rhai oedd yn defnyddio'r gwasanaeth casglu ailgylchu.
- Arweiniodd hyn at welliant bach o 0.1% mewn ailgylchu dros y flwyddyn flaenorol.

**Ychwanegol Mesurau**

- Daeth yn amlwg yn ystod chwarter cyntaf 2012/13 bod rhaid i ni roi mesurau ychwanegol ar waith er mwyn cynyddu ein cyfradd ailgylchu i gyflawni'r targed statudol o 52%.

**Rwbel**

- Trwy archwilio cyfraddau ailgylchu awdurdodau eraill, gwelwyd bod gan y mwyafrif swm sylweddol o rwbel a oedd yn cyfrannu at hyd at 10% o'r targed statudol o 52%. Roeddem yn ailgylchu 0% ar y pryd.
- Cafodd rwbel cartref ei gyflwyno mewn dau o'r Canolfannau Ailgylchu Gwastraff Cartref ac yn dilyn cynnydd cyson yn nifer y rhai a oedd yn defnyddio'r gwasanaeth hwn yn ail chwartel y flwyddyn honno, cyfrannodd y chwarter olaf 1% at y targed o 52%.

**Didoli Gwastraff Gweddilliol**

- Yn 2012/13 penderfynwyd caffael safle didoli gwastraff yn ein cyfleuster ein hunain er mwyn targedu elfennau penodol o'r llif gwastraff gweddilliol. Bydd hyn yn canolbwyntio ar ddidoli eitemau metel, gwydr, papur a phlastig.

**Ynni o Wastraff**

- Oherwydd pryderon ynglŷn â phrinder lle ar safle tirlenwi'r cyngor, darparwyd mwy o refeniw i anfon gwastraff gweddilliol i'w losgi cyn i'r drwydded weithredu at ddefnydd ychwanegol yn y dyfodol gael ei chymeradwyo. Y bwriad oedd cael gwared ar ddigon o wastraff trwy ddefnyddio'r broses hon i bontio'r diffyg ar gyfer y chwarter olaf, os nid ar gyfer y flwyddyn gyfan.
- Cymerodd y broses gaffael beth amser i'w chwblhau i sicrhau y gellid achredu elfen ailgylchu'r broses er mwyn cyfrannu at ein targed ailgylchu. Dechreuwyd trin y gwastraff ym mis Chwefror 2013 a chyfrannodd y swm cymharol fach o wastraff a driniwyd erbyn diwedd y flwyddyn 0.3% ar ein cyfradd ailgylchu.

**Ailddefnyddio**

- Rydym wedi cyflwyno'r ‘Siop Gornel’, siop ailddefnyddio yng Nghanolfan Ailgylchu Gwastraff Cartref yn Llansamlet sydd wedi bod yn gweithredu ers mis Hydref.
- Diben y siop yw dargyfeirio'r llawer o eitemau da y gellir eu hailddefnyddio y mae aelodau'r cyhoedd yn ceisio eu taflu fel y cânt eu hailddefnyddio. Mae'r eitemau a werthir yn amrywio o drugareddau bach a llyfrau i gelfi.
- Mae rhai awdurdodau'n cyflawni ffigurau ailddefnyddio eithriadol o uchel (hyd at 10%). Yn gyffredinol, mae'r ffigurau ar draws Cymru'n llawer llai (fel arfer yn llai nag 1%).

**Tipio anghyfreithlon**

- Mae hyfforddiant Memex (offeryn deallusrwydd diogel a ddefnyddir gan asiantaethau gorfodi amrywiol) wedi cael ei gynnal i alluogi swyddogion gorfodi o sawl awdurdod lleol i rannu gwybodaeth ddiogel am droseddau a throseddwyr tipio'n anghyfreithlon a hefyd i gael gwybod am unrhyw weithgareddau anghyfreithlon posib eraill y gallai'r unigolion fod yn ymwneud â hwy.
- Cynhaliwyd diwrnodau ymgysylltu â'r cyhoedd i geisio darbwyllo i beidio â thipio'n anghyfreithlon.

**Beth oedd yr effaith a sut rydym yn cymharu ag eraill?**

- Gellir dangos effaith yr ymgyrch barhaus i leihau gwastraff cyffredinol a chynyddu cyfraddau ailgylchu compostio yn Abertawe mewn gwelliannau o flwyddyn i flwyddyn yn y ffigurau allbwn, ynghyd â gostyngiad yn nhunelledd cyffredinol y gwastraff dinesig o 126,785 o dunelli yn 2009/10 i 110,180 yn 2012/13.

| Blwyddyn | % y gwastraff dinesig a ailgylchwyd/ailddefnyddiwyd | % y gwastraff dinesig | % gyffredinol o'r gwastraff dinesig a ailgylchwyd/ ailddefnyddiwyd |
|---|---|---|---|
| 2009/10 | 22.11 | 12.44 | 34.55 |
| 2010/11 | 26.83 | 13.64 | 40.47 |
| 2011/12 | 28.70 | 16.45 | 45.15 |
| 2012/13 | 31.32 | 16.55 | 47.87 |

- Roedd arolygon boddhad yn galonogol dros ben, yn benodol y canlyniadau ynglŷn â'r newid i'r gwasanaeth ailgylchu wythnosol amgen. Newid cam oedd hyn yn y ffordd roedd preswylwyr yn derbyn eu casgliadau ymyl y ffordd. Nododd 89% eu bod wedi cael eu hysbysu'n dda iawn neu'n eithaf da am y newidiadau cyn eu cyflwyno. Rhywbeth arall calonogol oedd y ffaith fod 42% yn teimlo'n anhapus iawn neu'n eithaf anhapus am y newidiadau cyn eu cyflwyno ond bod hyn wedi gostwng i 18% ar ôl rhoi'r newidiadau ar waith. Nododd 68% fod y newidiadau wedi'u hannog i ailgylchu ac ategwyd hyn gan gynnydd cyfatebol ym mhwysau'r deunyddiau a gasglwyd yn y misoedd ar ôl cyflwyno'r newidiadau.

- Yn y blynyddoedd diwethaf mae wedi bod yn amlwg nad oedd y cynnydd disgwyliedig yn swm y gwastraff ymyl y ffordd a ailgylchwyd mor uchel â'r hyn a ragwelwyd ar gyfer 2012/13, a oedd yn werth 47.87%.

- Oherwydd cyfradd ailddefnyddio/ailgylchu a chompostio gyffredinol Cymru ar gyfer 2012/13, roedd Abertawe yn 20fed o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru.

- Mae gan Abertawe gyfradd compostio o 16.55% yn 2012/13 o'i chymharu â chyfartaledd Cymru gyfan o 18.24%, gan roi Abertawe yn y 14eg safle, a chyfradd ailgylchu sych o 31.32% yn 2012/13 o'i chymharu â chyfartaledd Cymru gyfan o 34.02%, gan roi Abertawe yn y 16eg safle o ran perfformiad.

- Cynhaliwyd adolygiad gan y Rhaglen Gweithredu Gwastraff ac Adnoddau (WRAP) yn 2012/13 o'r gwasanaethau a ddarperir ym mhob un o'r pum Canolfan Ailgylchu Gwastraff Cartref a nodwyd dewisiadau sy'n benodol i bob safle ar gyfer cynyddu perfformiad ailgylchu a lleihau costau cyffredinol, lle bo modd. Mae WRAP wedi meincnodi Abertawe gydag awdurdodau lleol eraill sydd â Chanolfannau Ailgylchu Gwastraff Cartref, y mae gan rai o'r goreuon gyfradd ailgylchu sy'n uwch na 70% (ac eithrio rwbel). Caiff canfyddiadau'r astudiaeth feincnodi eu hystyried gan y cyngor yn ystod 2013/14.

- Unwaith eto, y targed ailgylchu statudol ar gyfer 2013/14 yw 52% ond dylai gwelliannau cynlluniedig ein galluogi i gyrraedd y targed statudol ar gyfer 2015/16, sef 58%; yn chwarter cyntaf 2013/14, mae'r cyngor wedi ailgylchu 52.34%.

- Dylai'r gwelliannau canlynol ein galluogi i gyflawni'r targed ar gyfer eleni, sef 52%, yn chwarteri olaf 2013/14. Fodd bynnag, gall rhoi'r cynlluniau hyn ar waith trwy gydol y flwyddyn atal cyflawni'r targed ar gyfer y flwyddyn gyfan.

- Cynyddodd canran yr achosion o dipio anghyfreithlon a gliriwyd o fewn 5 niwrnod gwaith o 86.08% yn 2011/12 i 92.9% yn 2012/12, gyda'r cyngor yn codi o'r 17eg safle i'r 15fed safle yng Nghymru o ganlyniad, a oedd yn well na chyfartaledd Cymru.

**Beth byddwn yn ei wneud yn wahanol?**

- Trwy'r prosiect curo ar ddrysau ddechrau 2012, cawsom ddealltwriaeth well o sut i gynyddu cyfranogiad yn ein gwasanaethau ailgylchu ymyl y ffordd.

- O'r gwaith hwn deilliodd ymagwedd â mwy o ffocws a arweiniodd at dreial llwyddiannus i gynyddu gwastraff bwyd. Dangosodd y treial gynnydd mesuradwy yn swm y gwastraff bwyd a gasglwyd gan hybu Craff am Wastraff i ddarparu cyllid gan fod diddordeb ganddynt mewn defnyddio ein dull fel canllaw arfer da ledled Cymru os bydd y prosiect estynedig yn llwyddiannus.

- Caiff y prosiect ei estyn i 25,000 o gartrefi o fis Mai 2013. Dylai hyn gyfrannu 0.5 i 1% ychwanegol mewn blwyddyn gron a chaiff ei estyn os bydd yn llwyddiannus.

- Gan fod y gwasanaeth casglu ymyl y ffordd presennol wedi bod ar waith ers 2 flynedd erbyn hyn, byddwn yn adolygu hwn yn feirniadol yn erbyn ‘Glasbrint Casglu’ Llywodraeth Cymru yn ystod 2013/14.

**Canolfannau Ailgylchu Gwastraff Cartref (CAGC)**

- Caiff y gwelliannau eu cyflwyno fesul cam trwy gydol 2013/14 a disgwylir iddynt leihau'r gwastraff gweddilliol sy'n cael ei anfon i'r safleoedd a chynyddu perfformiad ailgylchu.

- Dylai hyn arwain at gynnydd o 1 i 2% yn y flwyddyn gyntaf.

**Gwastraff Masnachol**

- Dylai newidiadau ychwanegol i'r strwythur prisio ar gyfer y gwastraff hwn a rhagor o archwiliadau gwastraff arwain at gynnydd graddol mewn perfformiad.

**Rwbel**

- Rydym bellach yn hyrwyddo'r gwasanaeth hwn a disgwylir gweld cynnydd o 3 i 4% mewn blwyddyn ar ôl iddo gael ei ddatblygu'n llawn.

**Didoli Gwastraff Gweddilliol**

- Mae'n debygol y caiff hyn ei gomisiynu erbyn diwedd 2013/14 a gallai gynyddu ein ffigurau ailgylchu hyd at 4% mewn blwyddyn gron.

**Ynni o Wastraff**

- Dangosodd y treial hwn sut mae'r dull hwn yn gweithio'n ymarferol a gallai ein galluogi i gyrraedd y targedau statudol os cawn y buddsoddiad angenrheidiol. Ar hyn o bryd rydym yn cynnal trafodaethau cystadleuol i gaffael partner i waredu/trin ein gwastraff gweddilliol.
- Gallai hyn gynyddu ein cyfradd ailgylchu hyd at 4% mewn blwyddyn gron.

**Ailddefnyddio**

- Byddwn yn cysylltu â'r rhai sy'n cyflawni ffigurau uchel i ddarganfod sut maent yn llwyddo gwneud hyn ac mae cynlluniau ar waith i ehangu'r ‘Siop Gornel’.

**Tipio anghyfreithlon**

- Caiff ystadegau ynglŷn â nifer y sachau a swm y gwastraff sy'n cael eu tipio'n anghyfreithlon a'r camau gweithredu canlynol eu harddangos er mwyn i bob gweithredwr tipio anghyfreithlon y cyngor eu gweld fel y gallant werthfawrogi'r rhesymau dros gyfarwyddiadau a roddir iddynt i chwilio am dystiolaeth i helpu i adnabod troseddwyr.

| **Crynodeb o'r gwerthusiad** |
|---|
| • Mae'r cyngor wedi rhoi nifer o fentrau ar waith yn llwyddiannus sydd wedi cynyddu'n gyson swm y gwastraff y mae'n ei ailgylchu ac wedi lleihau swm y gwastraff sy'n cael ei anfon i safleoedd tirlenwi. Mae boddhad y cyhoedd gyda gwasanaethau ailgylchu'r cyngor yn dda. Fodd bynnag, er gwaethaf y gwelliannau hyn, methodd y cyngor fodloni'r targed ailgylchu statudol yn 2012/13 ac mae ei berfformiad yn wael o'i gymharu â chynghorau eraill yng Nghymru. Fodd bynnag, mae gan y cyngor gynlluniau ar waith i gynyddu'r gyfradd ailgylchu ymhellach a gwella'i berfformiad cenedlaethol ac mae'n rhagweld y bydd yn bodloni'r targed ailgylchu statudol ar gyfer 2015/16. |

## Amcan Gwella 5:

## Gwella cyflogadwyedd pobl trwy gynyddu effaith rhaglen adfywio'r cyngor i gynnig a hwyluso hyfforddiant a lleoliadau gwaith.

### Pam cafodd yr amcan hwn ei ddewis?

- Mae'r argyfwng ariannol byd-eang a'r dirwasgiad wedi effeithio ar economi Dinas a Sir Abertawe a'i ddinasyddion, a bydd yn parhau i wneud hyn. Mae'r gwerthoedd economaidd diweddaraf yn dangos bod cyfradd gweithgaredd economaidd Abertawe yn is na gweddill Cymru a'r DU[3].

- Mae gan Abertawe nifer o gymunedau â chyfraddau hawlwyr diweithdra llawer uwch na chyfartaledd Abertawe.

- Mae gan Abertawe bron deirgwaith nifer y bobl sy'n hawlio budd-dal analluogrwydd a'r Lwfans Cyflogaeth a Chymorth newydd na nifer y rhai sy'n hawlio Lwfans Ceisio Gwaith. Mae'r ffigurau hyn yn uwch na rhai Cymru a'r DU[4]; unwaith eto, mae crynodiadau lleol o hawlwyr yn Abertawe.

- Mae gan economi Abertawe gyfradd uwch o swyddi yn y sector cyhoeddus: 31.8% yn gweithio yn y sector cyhoeddus o'i chymharu â 27.9% yng Nghymru[5].

- Mae gostyngiadau gwario ychwanegol yn debygol, gan olygu y disgwylir i'r sector cyhoeddus leihau. Mae dinasoedd fel Abertawe, sy'n dibynnu ar gyflogaeth y sector cyhoeddus, mewn sefyllfa arbennig o fregus.

- Bydd rhaid i Ddinas a Sir Abertawe baratoi ar gyfer goblygiadau rhagor o ostyngiadau i faint gweithlu'r sector cyhoeddus[6].

### Beth oedd ein nod?

- Gweithio gyda phartneriaid i gysylltu cleientiaid Gweithffyrdd â chyfleoedd cyflogaeth gyda sefydliadau lleol a chynyddu nifer y bobl sy'n cael eu cyflogi o ganlyniad i'r cynllun.

- Ceisio cytundeb sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus i addasu eu polisïau i gynnig cyfweliadau gwarantedig i gyfranogwyr Gweithffyrdd sy'n

---

[3] ***Ffynhonnell**: Data Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth (APS) ar gyfer y cyfnod 12 mis a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2011, SYG.*
[4] ***Ffynhonnell**: www.DWP/Nomis*
[5] ***Ffynhonnell**: Dadansoddiad cyflogaeth y Gofrestr Fusnes a'r Arolwg Cyflogaeth (BRES), 2010. SYG.*
[6] ***Ffynhonnell**: Centre for Cities (2009) Public Sector Cities: Trouble Ahead, Centre for Cities: Llundain*

bodloni'r amodau gofynnol am unrhyw swyddi gwag sydd ganddynt er mwyn cynyddu nifer y bobl sy'n cael eu cyflogi o ganlyniad i'r cynllun.

- Nod y prosiect Y Tu Hwnt i Frics a Morter (YTHFM) yw cyflawni buddion cymdeithasol o gontractau gwaith y cyngor fel rhan o gynlluniau i adfywio Dinas a Sir Abertawe. Mae'r buddion cymdeithasol hyn yn creu cyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth ar gyfer pobl ddi-waith gyda'r nod ychwanegol o gynorthwyo busnesau lleol i wella'u gallu i ennill contractau. Fodd bynnag, arafwyd cynnydd gan y dirwasgiad ac roedd rhaid i'r cyngor ystyried dewisiadau eraill.

**Beth rydym wedi'i wneud?**

**Gweithffyrdd**

- Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi gweithio'n agos gyda phartneriaid presennol a datblygu perthnasoedd newydd gyda phartneriaid newydd.
- Yn ystod 2012/2013, mae'r prosiect wedi cael ei farchnata ar sawl ffurf. Un o'r rhain yw cylchlythyr rheolaidd sy'n cynnwys straeon llwyddiant lle mae cyfranogwyr prosiect wedi llwyddo i gael swydd.
- Yn ystod camau cychwynnol y prosiect yn Abertawe, penderfynwyd ceisio cytundeb sefydliadau sector cyhoeddus eraill i addasu eu polisïau er mwyn cynnig cyfweliadau gwarantedig i gyfranogwyr sy'n bodloni'r amodau gofynnol am unrhyw swyddi gwag. Trafodwyd hyn ag aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol (BGLl) yn 2011/2012 a chytunwyd nifer ohonynt. Mae cyfranogwyr prosiect yn manteisio ar hyn.
- Roedd aelodau'r BGLl a oedd mewn sefyllfa i gytuno wedi cytuno ar yr adeg honno. Mae'r aelodau eraill wedi nodi na allant newid eu polisi a'u gweithdrefnau gan mai sefydliadau cenedlaethol ydynt y mae eu polisïau'n berthnasol i'r sefydliad cyfan.

**Y Tu Hwnt i Frics a Morter**

- Yn ystod 2012/13 mae YTHFM wedi cyflawni ei dargedau trwy gynyddu nifer y contractau sy'n cynnwys buddion cymdeithasol ac mae'r rhain hefyd wedi cynnwys 2 gontract nad oeddent yn ymwneud ag adeiladu.
- Roedd y prosiect Sgiliau Hanfodol Rhanbarthol yn cynnwys contractau mewn awdurdodau lleol cyfagos, a oedd yn heriol gan fod y rhan fwyaf o rwydwaith partneriaid YTHFM yn Abertawe. Penderfynwyd defnyddio rhwydwaith y colegau ym mhob ardal i gyflawni'r gofynion hyfforddi ond mae angen cynyddu rhwydwaith y darparwyr hyfforddiant ar gyfer prosiectau rhanbarthol ychwanegol.
- Mae gwaith partneriaeth ar draws siroedd eisoes wedi dechrau. Er bod y rhan fwyaf o leoliadau hyd yn hyn wedi bod yn y sector adeiladu, mae'r partneriaid sy'n gweithio gyda'r di-waith mewn sefyllfa dda i ddarparu lleoliadau mewn swyddi nad ydynt yn ymwneud ag adeiladu.

- Un o'r prif heriau yn ystod y flwyddyn (fel mewn blynyddoedd blaenorol) oedd cynnal llif da o hyfforddeion o sefydliadau partner YTHFM. Oherwydd natur tymor byr llawer o'r contractau hyd yn hyn, mae'r cyfleoedd yn fwy byrhoedlog ac ni all pobl bob amser weld eu manteision. Mae YTHFM wedi cael trafferth yn aml dod o hyd i ymgeiswyr. Un o'r ffyrdd i ddatrys hyn yw datblygu perthynas â darparwyr hyfforddiant prentisiaid sydd wedi cynnig profiad gwaith tymor byr i brentisiaid yn eu lleoliad coleg, gan ganiatáu iddynt ennill profiad ar safle. Mae YTHFM hefyd yn ymwneud â Chynllun Prentisiaethau a Rennir newydd y De-orllewin ac o fis Medi 2013 bydd hefyd yn darparu hyfforddeion ar gyfer lleoliadau tymor byrrach.

- Mewn achosion eraill lle roedd y contractwr wedi gofyn am gymhwyster penodol ond nid oedd ymgeiswyr addas ar gael, roedd YTHFM wedi trefnu i'r contractwr dderbyn person anghymwys a gweithio gydag ef iddynt ennill y cymhwyster.

- Mae cynyddu ymwybyddiaeth o YTHFM wedi bod yn elfen o'r prosiect cyfan ac roedd creu siarter yn offeryn a ddefnyddiwyd i amlygu ei nodau. Y llynedd bu newid yn y ffordd y mae digwyddiadau wedi cael eu cynnal gan YTHFM. Ar y dechrau, diben y digwyddiadau oedd cynyddu ymwybyddiaeth ymhlith contractwyr ac eraill o nodau ac uchelgeisiau'r prosiect a sicrhau bod contractwyr yn ymwybodol o'r hyn y byddai gofyn iddynt ei wneud. Prin iawn oedd y diddordeb a gafwyd mewn un digwyddiad a gynhaliwyd ac felly cafodd ei ganslo ac mae digwyddiadau i'r dyfodol wedi cael eu trefnu gydag ysgogiad i gontractwyr ddod iddynt trwy drefnu digwyddiadau ynghyd â gwybodaeth benodol am gontractau neu fframweithiau. O ganlyniad mae presenoldeb yn y digwyddiadau hyn wedi bod yn dda a gall YTHFM achub ar gyfleoedd i gynyddu ymwybyddiaeth ac annog cyfranogiad.

- Mae'r ffocws ar ddigwyddiadau hefyd wedi gweithio trwy fformatau “Cwrdd â'r Prynwr” ar y cyd â chontractwyr mawr. Y nod yw rhoi cyfleoedd i gontractwyr llai lleol ennill contractau ond hefyd sicrhau bod neges YTHFM yn cael ei bwysleisio i'r prif gontractwr, a fydd hefyd yn gofyn i is-gontractwyr am fuddion cymdeithasol yn eu contractau ar gyfer Abertawe.

- Rhoddir cyhoeddusrwydd i ddigwyddiadau a chontractau ar Sell2Wales a gofynnir hefyd i gontractwyr hysbysebu eu his-gontractau yn yr un modd. Ychydig iawn o gynnydd a fu yn y maes hwn. Byddai contractwyr yn elwa o gymorth yn y maes hwn. Mae angen mwy o gydweithredu â Sell2Wales er mwyn ei gwneud yn haws i'r contractwr gydymffurfio.

- Wrth ehangu'r fenter, mae YTHFM wedi gweithio gyda sefydliadau sector cyhoeddus eraill i gynnwys buddion cymdeithasol yn eu contractau yn ogystal â buddion cymdeithasol yn y ceisiadau am grantiau i'r Rhaglen Gwella Adeiladau, cynllun a reolir ar y cyd gan y cyngor a Llywodraeth Cymru i ddarparu grantiau i berchnogion neu ddeiliaid safleoedd nodedig yng nghanol y ddinas i ymgymryd â gwaith i wella tu blaen adeiladau a siopau.

**Beth oedd yr effaith a sut rydym yn cymharu ag eraill?**

**Gweithffyrdd**

- Mae'r prosiect Gweithffyrdd wedi bod yn llwyddiannus wrth helpu i ddod o hyd i swyddi ar gyfer 307 o bobl o fis Ebrill 2012 tan fis Mawrth 2013 o'i gymharu â 201 o bobl yn 2011/12. Roedd mwyafrif llethol y cyfranogwyr a ymatebodd i arolygon yn fodlon ar gynllun Gweithffyrdd; Nododd 84% o gyfranogwyr oedd yn gadael Gweithffyrdd ei fod wedi gwneud gwahaniaeth cadarnhaol yn 2012/13 o'i gymharu â 70% yn 2011/12.

- Dengys cronfa ddata'r prosiect y cafodd 65 o cyfranogwyr prosiect Gyfle am Swydd Dros Dro (CSD) yn 2012/2013. Mae'r fath leoliadau ar gyfer y cyfranogwyr hynny yn y prosiect y gall fod angen cefnogaeth barhaus arnynt gan y prosiect ar ôl iddynt ddechrau yn y gweithle. Yn yr achosion hyn, rydym yn gweithio'n agos gyda'r cyfranogwr a'r cyflogwr i sicrhau bod y ddwy ochr yn cael ei chefnogi'n llawn. Mae dros hanner y bobl sy'n dechrau CSD yn llwyddo wedyn i gael swydd.

- Er ein bod wedi cyflawni ein targedau'n llwyddiannus ac wedi datblygu perthnasoedd gwaith llwyddiannus â phartneriaid, bu prinder staff ar y prosiect sydd wedi cyfyngu ar ein gallu.

- Hyd at fis Ebrill 2012, roedd y prosiect yn gweithio mewn dwy swyddfa wahanol yn y sir ac mewn dwy is-adran wahanol. Ar adegau, roedd hyn yn achosi problemau cyfathrebu yn y tîm ac â'r tîm arweiniol rhanbarthol yng Nghastell-nedd Port Talbot. Felly, penderfynwyd y dylid secondio staff i un is-adran ac un swyddfa ganolog. Digwyddodd hyn ym mis Ebrill 2012 a chafodd wahaniaeth cadarnhaol ar y tîm ac allbynnau'r prosiect.

- Fodd bynnag, roedd prinder Swyddogion Cyswllt Cyflogaeth yn parhau ac o ganlyniad nid oeddem yn gallu darparu cynifer o sesiynau gweithgaredd ceisio swydd penodol fel allgymorth ag mewn siroedd eraill. Yn lle hyn, roedd rhaid i ni ganolbwyntio ar gynnal y gweithgareddau i gyfranogwyr prosiect o un lle canolog, sy'n gallu achosi problemau cludiant i gyfranogwyr. Bydd cynnal y sesiynau hyn fel allgymorth yn sicrhau y bydd mwy o bobl yn bresennol a, gobeithio, yn gallu symud i gyflogaeth yn gynt.

- I ddatrys unrhyw broblemau posib gyda pherfformiad, roeddem yn cydgysylltu yn ôl y gofyn â thimau eraill y prosiect yn y gwledydd eraill i gael cefnogaeth. Gwnaethom ymateb i'r broblem trwy gynnwys mwy o staff mewn achos busnes i WEFO ar gyfer estyn y prosiect. Caiff hyn ei gymeradwyo a bydd yn golygu y gallwn ddarparu hyd yn oed mwy o wasanaethau ar gyfer ein cyfranogwyr a busnesau yn y dyfodol.

- Hyd at fis Mawrth 2013, roedd y prosiect ar draws y rhanbarth cyfan wedi helpu 1,186 o gyfranogwyr i gael swyddi. Hynny yw 307 yn Abertawe, 518 yng Nghastell-nedd Port Talbot, 246 yn Sir Gâr a 115 yn Sir Benfro. Dyma'r ffigurau disgwyliedig yn seiliedig ar ddemograffeg y sir ond rydym yn gobeithio cynyddu'r ffigurau yn yn Abertawe'r flwyddyn nesaf gan y bydd gennym fwy o staff erbyn hynny.

**Y Tu Hwnt i Frics a Morter**

- Effaith gyffredinol YTHFM yw bod mwy o bobl ddi-waith, NEET ac economaidd anweithgar hir dymor wedi cael swyddi a hyfforddiant trwy'r cymalau budd cymdeithasol sy'n rhan o'r prosiectau a arweinir gan Ddinas a Sir Abertawe a chyrff sector cyhoeddus eraill yn Abertawe nag fel arall.
- Dros gyfnod y prosiect, rhoddwyd gwerth 3000 o wythnosau o hyfforddiant a phrofiad gwaith unigolyn i ddinasyddion di-waith Abertawe yr oedd angen cefnogaeth ychwanegol arnynt i ddychwelyd i'r gwaith. Yn 2012/13 roedd 104 o bobl wedi cofrestru ar gyfer menter YTHFM o'i gymharu ag 88 yn 2011/12 gyda 17 o brosiectau newydd yn cynnwys cymalau budd cymdeithasol o'i gymharu â 12 prosiect yn 2011/12.
- Mae llawer o'r rhain wedi cael swyddi gyda'r contractwyr ar ôl cwblhau'r contract. Mae astudiaethau achos wedi dangos i ba raddau y mae eu bywydau wedi newid o ganlyniad i'r cyfleoedd a roddwyd iddynt. Mae hyn wedi dangos bod Abertawe'n gallu mwyafu ei wariant ar brosiectau adfywio i atgyfnerthu ymdrechion i leihau amddifadedd yn y sir.
- Ar y dechrau, YTHFM oedd yr unig brosiect o'i fath yng Nghymru ac Abertawe oedd yr awdurdod lleol cyntaf i gynnwys buddion cymdeithasol wrth wraidd ei gontractau. Mae wedi hyrwyddo'r ymagwedd hon i gynghorau a sefydliadau sector preifat eraill, gan eu helpu gyda methodoleg, dogfennu a chyngor.
- Mae awdurdodau lleol eraill wedi bod yn cynnwys buddion cymdeithasol yn eu contractau o'u gwirfodd ond mae rhai sy'n cynnwys amodau contract y mae gan bob un ffocws gwahanol.
- Mae YTHFM yn cynnig lleoedd hyfforddiant i sefydliadau partner sy'n gweithio gyda phobl ddi-waith a'r rhai y mae angen cymorth ychwanegol arnynt i ddychwelyd i'r gwaith. Mae rhai cynghorau'n gofyn i gontractwyr ddod o hyd i'w hyfforddeion eu hunain a hefyd yn ystyried bod yr hyfforddeion sydd eisoes ganddynt yn fuddion cymdeithasol ond mae YTHFM yn benodol am ariannu lleoedd newydd i'r bobl fwyaf anghenus.
- Felly, efallai nad yw nifer yr hyfforddeion mor uchel â ffigurau eraill ond maent yn cael cyfleoedd na fyddent fel arall ar gael iddynt a bydd y rhain wedi cael eu cynnig i'r rhai y mae angen y cymorth a'r profiad ychwanegol arnynt. Mae gwelliannau yn y dyfodol yn cynnwys casglu amrywiaeth ehangach o ddata gan gontractwyr fel y gellir adrodd am y buddion llawn.

**Beth byddwn yn ei wneud yn wahanol?**

**Gweithffyrdd**

- Disgwyliwyd i'r prosiect Gweithffyrdd ddod i ben ar 31 Mawrth 2013 ond dyfarnwyd mwy o arian iddo tan fis Mawrth 2014 oherwydd ei lwyddiant. Prosiect peilot fydd hwn i ddechrau gan y bydd yn mabwysiadu elfennau o'r prosiect Genesis 2, a gaewyd flwyddyn cyn amser ym mis Mehefin 2013. Roedd WEFO a Llywodraeth Cymru o'r farn y byddai'n gyfle da i estyn Gweithffyrdd i gynnal y prosiect peilot.

- Y nod yw y bydd canlyniadau'r peilot hwn yn cyfeirio prosiectau ar gyfer y rownd nesaf o gyllid Ewropeaidd ar gyfer 2014/20 pan fydd un prif brosiect cyflogadwyedd a sgiliau.
- Mae'r prosiect Gweithffyrdd ar draws y rhanbarth yn cyflawni ei dargedau ac mae WEFO wedi nodi y bydd Gweithffyrdd mewn sefyllfa dda i fod y prif brosiect cyflogadwyedd a sgiliau yn y rownd nesaf o gyllid UE. Felly, mae angen cefnogaeth barhaus i'r prosiect barhau i adeiladu ar lwyddiant y prosiect Gweithffyrdd presennol.
- Er bod y prosiect wedi dioddef oherwydd prinder staff, mae wedi llwyddo i gyflawni ei holl ganlyniadau. Yn y dyfodol agos bydd yn bwysig mynd i'r afael â'r prinder staff er mwyn parhau i adeiladu ar lwyddiant y prosiect hyd yma a sicrhau ein bod yn gallu cynnig cefnogaeth sydd hyd yn oed yn ehangach a datblygu'n brosiect cyflogadwyedd a sgiliau a ariennir gan yr UE yn y dyfodol.

**Y Tu Hwnt i Frics a Morter**

- Y ffocws nesaf i YTHFM yw sicrhau bod prosiectau mewn meysydd eraill ar wahân i adfywio, gwaith ac adeiladu, megis contractau sy'n seiliedig ar wasanaethu a gofalu, fwyafu eu buddion trwy gynnwys cymalau budd cymdeithasol.
- Mae prosiectau rhanbarthol a arweinir gan Abertawe hefyd yn cynnwys buddion cymdeithasol ac maent yn rhoi mwy o her o ran nodi ffordd o alluogi pob awdurdod i bennu eu buddion cymunedol eu hunain. Mae comisiynu'r Gwasanaethau Cymdeithasol hefyd yn faes contractol sy'n gosod heriau newydd.

| Crynodeb o'r gwerthusiad |
| --- |
| • Trwy'r prosiect Y Tu Hwnt i Frics a Morter (YTHFM), mae'r cyngor wedi cynyddu nifer y prosiectau adfywio sy'n cynnwys cymalau budd cymdeithasol â'r nod o ddarparu cyfleoedd gwaith a hyfforddiant i'r rhai sy'n ddi-waith ac yn anweithgar yn economaidd. Weithiau mae YTHFM wedi cael trafferth cynnal llif yr hyfforddeion o sefydliadau cyfranogol ond mae hyn wedi cael ei ddatrys trwy gydweithio'n agosach â cholegau a busnesau. Bydd YTHFM yn cynyddu nifer y buddion cymdeithasol a gynigir yn y dyfodol trwy ehangu ei gyrhaeddiad i gynnwys contractau gwasanaeth a gofal.<br>• Er gwaethaf prinder staff yn ystod y flwyddyn a gyfyngodd ar ei gallu, cymerodd y fenter Gweithffyrdd fesurau priodol, cynyddodd nifer y bobl a oedd yn dechrau mewn swydd o ganlyniad i'w cyfranogiad a gwellodd foddhad cyfranogwyr yn y cynllun. Mae'r cynllun Gweithffyrdd yn debygol o gael ei estyn yn y dyfodol a bydd angen mynd i'r afael â phrinder staff er mwyn parhau i gynnig cefnogaeth o safon i bobl sy'n ddi-waith neu'n anweithgar yn economaidd. |

**Ceir canlyniadau perfformiad manwl ar gyfer Amcanion Gwella'r cyngor yn 2012/13 ar ein gwefan Tablau Data Adolygiad Perfformiad Blynyddol 2012-13**

**Mae mwy o wybodaeth am berfformiad 2012/13 ar gael hefyd yn yr adolygiad hwn yn Rhan 3 - Meysydd perfformiad allweddol eraill – a thrwy glicio ar y ddolen ganlynol Adroddiadau Perfformiad Dinas a Sir Abertawe 2012-13**

(Sylwer bod gan Swyddfa Archwilio Cymru amheuon am ddibynadwyedd data a gasglwyd yn genedlaethol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer SCA/001 neu PLA/006b ac felly mae wedi penderfynu cymhwyso'r dangosyddion hyn yn gyffredinol ar gyfer 2012/13.)

## Rhan 3 – Meysydd perfformiad allweddol eraill yn 2012/13

Mae'r cyngor yn ymwneud â mentrau busnes hanfodol eraill yn ogystal â'i Amcanion Gwella. Er enghraifft, mae'r cyngor yn rheoli oddeutu 13,609 o gartrefi trwy ei Uned Gwasanaethau Tai ac yn un o ddarparwyr tai mwyaf yng Nghymru. Yn ogystal â'r meysydd yr oedd Amcanion Gwella'r cyngor yn ymdrin â hwy yn 2012/13, mae Cynllun Gwella newydd y cyngor ar gyfer 2013-17 hefyd yn cynnwys blaenoriaethau ynglŷn â thai, hybu ffyrdd iach o fyw a mynd i'r afael ag agweddau ar dlodi. Mae'r naratif isod yn tynnu sylw at waith penodol a wnaed yn ystod 2012/13 yn ogystal â gweithrediadau dyddiol y cyngor yn y meysydd hyn.

I gael mwy o wybodaeth am gynlluniau'r cyngor i wella'r meysydd canlynol yn y dyfodol, cliciwch ar y ddolen hon i'r **Cynllun Gwella Corfforaethol 2013-17**

## Tai

### Beth rydym wedi'i wneud a pham?

Rydym wedi rhoi Cynllun Busnes cytunedig ar waith i ariannu'r gwaith gwerth miliynau o bunnoedd i wella stoc tai'r cyngor yn unol â gofynion Safon Ansawdd Tai Cymru erbyn 2020. Bydd y buddsoddiad yn gwella y tu mewn a'r tu allan i'r cartrefi yn ogystal ag amgylchedd cyffredinol y stadau tai.

### Beth oedd yr effaith ar ddefnyddwyr gwasanaeth?

Mae'r gwaith eisoes wedi dechrau gyda £30m yn cael ei glustnodi ar gyfer 2013/14. Trwy'r gwelliannau hyn, bydd cartrefi'n cael eu hatgyweirio i safon uchel, byddant yn gynhesach ac yn fwy ynni-effeithlon, y bydd ganddynt amwynderau gwell megis ceginau ac ystafelloedd ymolchi newydd ac y byddant yn addas ar gyfer anghenion aelwydydd unigol.

### Beth byddwn yn ei wneud yn wahanol?

Y nod yw cwblhau'r holl welliannau angenrheidiol erbyn 2020 am gost o £300m. Mae rhaglenni blaenorol wedi canolbwyntio ar atgyweirio ffabrig yr adeiladau'n unig ond hefyd bwriedir gwella'r amwynderau mewnol, yr ardal o amgylch y cartrefi a'r stadau ehangach. Bydd y gwelliannau hyn yn helpu'r cyngor i gyflawni ei flaenoriaethau i wella tai, lleihau eiddo gwag ac annog pobl i gynnal eu tenantiaethau.

## Ffyrdd Iach o Fyw

### Beth rydym wedi'i wneud a pham?

Erbyn diwedd y flwyddyn gyntaf o'r ymgyrch i greu Abertawe actif ac iach, cafwyd bron 3.4 miliwn o ymweliadau gweithgaredd corfforol. Roedd yr adran hefyd wedi chwarae rôl allweddol wrth gefnogi Gemau Olympaidd 2012 trwy gynnal Teithiau Cyfnewid y Ffagl Olympaidd a Pharalympaidd trwy'r ddinas yn llwyddiannus pan ddaeth 60,000 o bobl, yn ôl amcangyfrifon, i groesawu'r Ffagl ar ei thaith i Lundain yn ystod deuddydd o weithgareddau.

### Beth oedd yr effaith ar ddefnyddwyr gwasanaeth?

Trwy gynyddu nifer yr ymweliadau gweithgaredd corfforol , mae Abertawe yn datblygu'n ddinas fwy actif, iach a gwybodus lle mae hybu ffordd iach o fyw yn flaenoriaeth. Helpodd y gweithgareddau a oedd yn cyd-fynd â Theithiau Cyfnewid y Ffagl Olympaidd a Pharalympaidd i ledaenu'r ymdeimlad Olympaidd o foddhad ar draws y rhanbarth a helpodd Abertawe i 'fod yn rhan ohono'. Cyfrannodd y cyngor hefyd at gyflwyno'r Cynllun Etifeddiaeth Olympaidd trwy greu amrywiaeth eang o gyfleoedd i bawb, o ddechreuwyr i athletwyr mwy uchelgeisiol, er mwyn sicrhau bod dylanwad y Gemau Olympaidd yn cefnogi rhagoriaeth chwaraeon yn y tymor hwy ac yn cynyddu cyfranogiad ar draws y ddinas.

**Beth wnawn ni'n wahanol yn y dyfodol?**

Bydd y cyngor yn parhau i hybu ffyrdd iach o fyw trwy wella lefelau o weithgaredd corfforol ac, er enghraifft, gynyddu nifer y lleoedd tyfu i annog pobl i dyfu eu bwyd eu hunain, bwyta'n iach a chymryd rhan mewn gweithgaredd iach.

## Diwygio lles

**Beth rydym wedi'i wneud a pham?**

Mae'r cyngor wedi cydweithredu ag amrywiaeth o bartneriaid i nodi'r newidiadau sy'n cael eu gwneud i ddiwygio lles, effaith debygol y newidiadau ar ddinasyddion ac argaeledd gwasanaethau ar draws Abertawe. Cynhaliwyd y cyntaf mewn cyfres o weithdai amlasiantaeth ym mis Tachwedd 2012. O ganlyniad i'r gwaith hwn, gwnaethom ymrwymo i ymgyrch genedlaethol Tai Cymunedol Cymru, 'Mae eich budd-daliadau'n newid' i sicrhau bod negeseuon cyson am y newidiadau a ble i fynd i gael cyngor ar gael ar draws y ddinas.

Rydym hefyd wedi cynyddu'r hyfforddiant budd-dal yr ydym yn ei gyflawni gyda staff ac asiantaethau partner. Y nod yw cynyddu gwybodaeth ymhlith gweithwyr allweddol i'w galluogi i gynorthwyo'n well gydag ymholiadau am fudd-dal gan eu grwpiau cleientiaid. Gall gweithwyr allweddol sy'n ymwneud ag ymholiadau budd-dal ffonio llinell gymorth Dinas a Sir Abertawe i gael mwy o gefnogaeth.

**Beth oedd yr effaith ar ddefnyddwyr gwasanaeth?**

Bydd y cyhoedd wedi derbyn gwybodaeth am y newidiadau gan amrywiaeth eang o ffynonellau: Arwain Abertawe, Tŷ Agored, baneri pont, faniau tai, datganiadau i'r wasg. Mae'r rhai y mae Cyfyngiadau Meini Prawf Maint y Sector Cymdeithasol (y Dreth Ystafelloedd Gwely) a'r Terfyn ar Fudd yn effeithio'n uniongyrchol arnynt wedi derbyn llythyrau unigol ac ymweliadau o ddrws i ddrws gan staff y cyngor.

O ganlyniad i'n hyfforddiant a llinell gyngor, mae gweithwyr allweddol yr awdurdod mewn sefyllfa well ac yn teimlo'n fwy hyderus i nodi problemau budd-dal a chynorthwyo gydag ymholiadau budd-dal. O ganlyniad uniongyrchol i'r Hyfforddiant ymwybyddiaeth Tlodi, gwellodd staff eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o Gynhwysiad Cymdeithasol i ddelio gydag

ymddygiad, canfyddiadau, mynediad a rhwystrau posib i'r gwasanaethau a ddarperir. Enghraifft o hyn yw'r gwasanaeth lyfrgelloedd yn newid ei bolisi ar gyfer rhoi cardiau llyfrgell i blant.

**Beth wnawn ni'n wahanol yn y dyfodol?**

Mae'r effaith wedi arwain at gydlynu gwell ar draws y sefydliadau partner. Mae ymdrech ar y cyd i ddosbarthu gwybodaeth i ddinasyddion ac aildrefnu rhai gwasanaethau yn eu paratoi'n well am effaith y newidiadau. Mae'r ganolfan gynghori dros dro yn y ganolfan gyswllt yn ymateb uniongyrchol i nodi'r angen am fan cyswllt unigol ar gyfer cyngor ac i ymateb i'r galw cynyddol. Mae'r cyngor yn bwriadu hyfforddi mwy o staff i roi cyngor ar les a budd-daliadau a hyrwyddo undeb credyd Abertawe er mwyn darparu dewisiadau credyd a chynilo fforddiadwy.

## Perfformiad y cyngor 2012/13

Mae'n rhaid i'r cyngor lynu wrth y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Gwella Perfformiad ac felly mae'n gorfod casglu, monitro ac adrodd am nifer o ddangosyddion perfformiad (DP) a bennir gan Lywodraeth Cymru neu lywodraeth leol Cymru i asesu ei flaenoriaethau a rennir â chynghorau eraill Cymru. Mae gan y cyngor hefyd nifer o DP a bennwyd yn lleol i asesu blaenoriaethau lleol.

Caiff DP eu monitro ac adroddir amdanynt yn gyhoeddus yng nghyfarfodydd y Cabinet ac yn wythnosol, yn chwarterol ac yn flynyddol trwy drefniadau craffu'r cyngor, ac fe'u defnyddir ar hyn o bryd i ddangos perfformiad yr awdurdod i gynulleidfa ehangach.

Mae'r cyngor yn cyflwyno Adroddiad Perfformiad Corfforaethol Chwarterol deirgwaith yn ystod y flwyddyn ac Adroddiad Perfformiad Diwedd Blwyddyn terfynol. Defnyddir yr Adroddiad Diwedd Blwyddyn i ddeall sut mae Cyngor Abertawe'n perfformio o'i gymharu â phob un o'r 21 awdurdod lleol arall yng Nghymru.

Ceir y ddolen i adroddiadau perfformiad diwedd blwyddyn a chwarterol eraill y cyngor ar gyfer 2012/13 isod:

Adroddiadau Perfformiad Dinas a Sir Abertawe 2012-13

Sylwer bod gan Swyddfa Archwilio Cymru amheuon am ddibynadwyedd data a gasglwyd yn genedlaethol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer SCA/001 neu PLA/006b ac felly mae wedi penderfynu cymhwyso'r dangosyddion hyn ar gyfer 2012/13.

## Rhan 4 - Cydweithredu ag eraill yn 2012/13

Bydd y cyngor bob amser yn ceisio cydweithredu â chynghorau eraill Cymru a phartneriaid er mwyn gwella gwasanaethau, rhannu gwybodaeth, manteisio ar arbenigedd a/neu ddarparu effeithlonrwydd ac arbed costau. Mae'r cyngor yn cydweithredu ag eraill ar draws amrywiaeth eang o wasanaethau ac felly nid rhestr gynhwysfawr sydd yma; fodd bynnag, dyma'r partneriaethau allweddol:

## Rheoli Gwastraff

**Sut mae'r cyngor wedi arfer ei bwerau a beth yw'r canlyniadau a fwriedir?**

Rydym yn cydweithredu â siroedd Penfro, Caerfyrddin, Castell-nedd Port Talbot a Phen-y-bont ar Ogwr i ddarparu gwaith trin gwastraff bwyd rhanbarthol. Bydd hyn yn rhoi ateb cost-effeithiol ac yn darparu ar gyfer anghenion gwaredu gwastraff bwyd y rhanbarth am y 25 mlynedd nesaf.

**Beth yw'r cynnydd rydym wedi'i wneud er mwyn cyflawni'r canlyniadau a fwriedir?**

Mae'r sefyllfa bresennol fel a ganlyn:

1. Caffael Treuliad Anerobig (Gwastraff Bwyd)
    - Mae'r gwaith yn mynd rhagddo gyda'r bwriad o gymeradwyo dyfarnu contract i'r Cabinet ym mis Tachwedd 2013. Bydd y contract yn para am 20 mlynedd (y gellir ei estyn i 25 mlynedd) gyda gwastraff bwyd yn cael ei brosesu ar safle ym Mhontypŵl gan ddibynnu ar benderfyniadau cynllunio a gweinidogol.
2. Caffael Gwastraff Bwyd
    - Mae caffael wedi'i ohirio nes cael caniatâd gan y Bwrdd Prosiectau Rhanbarthol i barhau fel partneriaeth o saith awdurdod (gan gynnwys Ceredigion a Phowys - CWWP). Dangoswyd bod y manteision dros gostau ymuno CWWP yn ymylol ac felly'n annherfynol.
    - Mae'r cam caffael nesaf yn cynnwys llunio achos busnes amlinellol i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

## Addysg –Gwasanaethau Gwella Ysgolion

**Sut mae'r cyngor wedi arfer ei bwerau a beth yw'r canlyniadau a fwriedir?**

Mae'r gwaith o gyflwyno Gwasanaethau Gwella Ysgolion drwy gonsortiwm rhanbarthol De-orllewin a Chanolbarth Cymru - sy'n cynnwys Sir Gâr, Ceredigion, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro, Powys ac Abertawe - yn parhau i ddatblygu.

Mae'r Fframwaith Cefnogi, Herio ac Ymyrryd Rhanbarthol (FfCHY) yn parhau i weithredu ar draws y rhanbarth, gan ddarparu ymagwedd gyson at gategoreiddio ysgolion a darparu her a chefnogaeth i helpu gwelliannau.

**Beth yw'r cynnydd rydym wedi'i wneud er mwyn cyflawni'r canlyniadau a fwriedir?**

Mae gofyniad y gweinidog i gysoni cyflwyno Gwasanaethau Gwella Ysgolion erbyn mis Medi 2012 wedi cael ei fodloni.

## Adfywio Economaidd a Chynllunio – Dinas-ranbarth

**Sut mae'r cyngor wedi arfer ei bwerau a beth yw'r canlyniadau a fwriedir?**

Rydym ar hyn o bryd yn cydweithredu ag awdurdodau lleol Castell-nedd Port Talbot, Sir Gâr a Phenfro i greu cadwyn gyflenwi leol a chyfleoedd hyfforddi a recriwtio yn ystod gwaith adeiladu'r campws gwyddoniaeth ac arloesedd. Bydd hyn yn rhannu adnoddau rhwng staff y cynghorau ac yn creu cyfleoedd lluosog yn yr ardaloedd teithio i'r gwaith.

Ynghyd â'n partneriaid awdurdod lleol, rydym wedi dangos ein penderfyniad i ehangu ein cydweithrediad yn rhanbarthol ac wedi derbyn yr her a osodwyd gan Grŵp Tasg a Gorffen y Dinas-ranbarthau i ddefnyddio egwyddorion cydgasglu ac ymgyrch y sector preifat i roi hwb ymlaen i'r economi.

**Beth yw'r cynnydd rydym wedi'i wneud er mwyn cyflawni'r canlyniadau a fwriedir?**

Cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau trawsffiniol i hyrwyddo'r cyfleoedd cadwyn gyflenwi a recriwtio yn ystod 2012/13.

Yn ystod 2012/13, gyda chymorth y sector preifat rydym wedi datblygu strategaeth adfywio economaidd rhanbarthol ac wedi defnyddio cyfranogiad a chyfraniad y sector preifat yn y broses honno i lunio cynllun gweithredu a fydd yn:

- Cefnogi mecanweithiau cefnogi i'n prif gyflogwyr
- Hybu cyfleoedd buddsoddi newydd a chwilio'n egnïol amdanynt
- Sicrhau ein bod yn barod i sicrhau cyllid UE i ddarparu'r sgiliau a'r isadeiledd i wneud ein heconomi'n iachach ac yn fwy cynhyrchiol
- Gweithio gyda Llywodraeth Cymru a'n sefydliadau academaidd i wella perfformiad economaidd trwy ddefnyddio gwybodaeth ac ymchwil a chynyddu cynhyrchedd a thwf.

## Rhaglen Iechyd a Gofal Cymdeithasol Bae'r Gorllewin

**Sut mae'r cyngor wedi arfer ei bwerau a beth yw'r canlyniadau a fwriedir?**

Yn ystod 2012/13 mae Rhaglen Iechyd a Gofal Cymdeithasol Bae'r Gorllewin, sy'n rhaglen ar y cyd gan gynnwys Abertawe, Castell-nedd Port Talbot, Pen-y-bont ar Ogwr a Bwrdd Iechyd Abertawe Bro Morgannwg, wedi cael ei sefydlu'n gadarn. Penodwyd personél yn benodol i gefnogi'r rhaglen,

cytunwyd ar drefniadau llywodraethu a lansiwyd y rhaglen yn ffurfiol ym mis Gorffennaf 2013.

Mae gan raglen Bae'r Gorllewin nifer o lifoedd prosiectau gan gynnwys Gwasanaethau Plant, Gwasanaethau Anableddau Dysgu Oedolion, Gwasanaethau Iechyd Meddwl Oedolion, Gwasanaethau Pobl Hŷn a Gwasanaethau Comisiynu. Mae hefyd nifer o lifoedd gwaith eraill yn ogystal â'r brif raglen sy'n cynnwys yr un asiantaethau partner. Mae'r rhain yn cynnwys IFSS, Diogelu i Oedolion a Phlant, Cefnogi Pobl, Camddefnyddio Sylweddau a Gwasanaethau Troseddu Ieuenctid.

**Beth yw'r cynnydd rydym wedi'i wneud er mwyn cyflawni'r canlyniadau a fwriedir?**

Dylai'r rhaglen gwaith ar y cyd hon wella canlyniadau i ddinasyddion trwy rannu arfer gorau, defnyddio adnoddau'n well ac arbed arian, gwella'r broses o gomisiynu gwasanaethau arbenigol, ac arfer blaengar.

## Diwylliant a Thwristiaeth – Cais Dinas Diwylliant

**Sut mae'r cyngor wedi arfer ei bwerau a beth yw'r canlyniadau a fwriedir?**

Mae Abertawe, Caerfyrddin a Chastell-nedd Port Talbort hefyd yn cydweithredu ar gyflwyno cais Bae Abertawe ar gyfer Dinas Diwylliant y DU 2017.

Mae cais Dinas Diwylliant Bae Abertawe'n rhan o sut rydym yn ailystyried ein lle yn y byd. Y nod yw manteisio ar fod yn ddinas-ranbarth creadigol a dyfeisgar a'r holl fuddion diwylliannol, cymdeithasol ac economaidd a fydd yn dod i bobl yr ardal os bydd y cais yn llwyddiannus.

**Beth yw'r cynnydd rydym wedi'i wneud er mwyn cyflawni'r canlyniadau a fwriedir?**

Nid yw enillydd Dinas Diwylliant 2017 wedi cael ei gyhoeddi hyd yma. Mae manteision i'r contract prynu llyfrau ar y cyd gan ei fod yn lleihau costau caffael cyffredinol ac hefyd yn sicrhau gostyngiadau mwy sylweddol wrth brynu stoc.

## Cludiant

**Sut mae'r cyngor wedi arfer ei bwerau a beth yw'r canlyniadau a fwriedir?**

O 1 Ebrill 2013 mae cyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau bysus wedi newid ac mae grant newydd - y Grant Gwasanaethau Cludiant Rhanbarthol - wedi cael ei gyflwyno. Caiff ei reoli gan y consortia trafnidiaeth rhanbarthol. Felly, mae'r pedwar cyngor yn SWWITCH wedi gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu a rhoi'r cynllun newydd ar waith i gefnogi gwasanaethau cludiant cyhoeddus ar draws y rhanbarth.

Mae Cyngor Castell-nedd Port Talbot a Phrifysgol Abertawe'n cydweithredu'n agos hefyd i wella cysylltiadau cludiant i ail gampws y brifysgol a fydd yn agor yn 2015.

**Beth yw'r cynnydd rydym wedi'i wneud er mwyn cyflawni'r canlyniadau a fwriedir?**

Mae strategaeth rhwydwaith rhanbarthol ar gyfer cludiant cyhoeddus yn cael ei datblygu ar hyn o bryd a gaiff ei rhoi ar waith ar draws SWWITCH o fis Ebrill 2014.

## Cyfreithiol

**Sut mae'r cyngor wedi arfer ei bwerau a beth yw'r canlyniadau a fwriedir?**

Mae'r Gwasanaethau Cyfreithiol a Rennir yn parhau i ddatblygu. Mae Tîm Cyfreithiol Rhanbarthol wedi cael ei sefydlu gyda'r nod o atal gwaith rhag cael ei anfon i'r sector preifat a datblygu arbenigedd mewnol. Mae hefyd wedi sicrhau cyllid ar gyfer Cyfreithwyr Dan Hyfforddiant a "phorthol cyfreithiol" y gellir ei ddefnyddio i rannu dogfennau cyfrinachol.

**Beth yw'r cynnydd rydym wedi'i wneud er mwyn cyflawni'r canlyniadau a fwriedir?**

Mae'r camau cyntaf i gyflawni'r bwriad i leihau'r gwaith sy'n cael ei anfon i'r sector preifat a datblygu arbenigedd mewnol wedi cael eu cymryd.


## Rhan 5 – Gwybodaeth gyhoeddus a'i defnydd

### Cyflwyniad

Mae awdurdod lleol Dinas a Sir Abertawe'n cyflwyno ystod eang o wasanaethau i bobl Abertawe. Mae'n rhaid i'r cyngor gynllunio pa wasanaethau y bydd yn eu cyflwyno gyda'r adnoddau sydd ar gael. Mae'n rhaid i'r cyngor sicrhau bod ei wasanaethau'n diwallu anghenion a dyheadau pobl Abertawe a'u bod yn effeithiol ac yn darparu gwerth am arian.

### Gwella a Chynllunio Busnes

Amlinellir y rhyngddibyniaeth rhwng Cynllun Un Abertawe, ymrwymiadau polisi, y Cynllun Gwella Corfforaethol newydd ar gyfer 2013-17, cynlluniau busnes a'r Rhaglen Strategol yn y diagram isod. Mae'r cyngor yn gweithio gyda'i bartneriaid bob pedair blynedd i bennu'r blaenoriaethau cyfunol ar gyfer holl bobl Abertawe. Caiff y blaenoriaethau cyfunol eu cyhoeddi mewn ‘Cynllun Integredig Sengl’, sydd wedyn yn cael ei gyflwyno a'i fonitro ar y cyd â phartneriaid.



Cynllun Un Abertawe yw'r Cynllun Integredig Sengl ar gyfer Abertawe. Fe'i lluniwyd gan Fwrdd Gwasanaethau Lleol Abertawe.

Mae'n rhaid i'r cyngor hefyd benderfynu ar ei flaenoriaethau ei hun bob blwyddyn. Mabwysiadodd y cyngor ei ymrwymiadau polisi yng nghyfarfod y cyngor ar 26 Gorffennaf 2012. Yr ymrwymiadau polisi yw'r addewidion polisi allweddol a nodwyd gan y cyngor i'w gwireddu yn ystod y cylch etholiadol hwn.

Mae'r cyngor yn ymgynghori â phobl Abertawe a rhanddeiliaid eraill ac yn eu cynnwys i helpu i benderfynu ar ei flaenoriaethau ar gyfer gwella, sydd wedyn yn cael eu cynnwys mewn 'Cynllun Gwella Corfforaethol (CGC). Mae'r adolygiad hwn yn disgrifio perfformiad y cyngor wrth gyflawni ei CGC ar gyfer 2012-13. Mae'r cyngor yn mabwysiadu'r CGC ac yn ei asesu trwy drefniadau craffu'r cyngor. Caiff y CGC ei fonitro trwy drefniadau gwella corfforaethol y cyngor.

Dechreuodd gwaith ar CGC newydd yn 2012 a mabwysiadwyd ‘Gweithredu dros Abertawe Well’, CGC ar gyfer 2013-17 gan y cyngor ar 30 Gorffennaf 2013. Nod y CGC newydd yw dangos cyfraniad y cyngor at yr heriau perthnasol a amlinellwyd yng Nghynllun Un Abertawe ac Ymrwymiadau Polisi'r cyngor sy'n ymwneud â'r angen i wneud gwelliannau.

Mae'r Cynllun Gwella Corfforaethol newydd ar gael trwy glicio ar y ddolen hon: Gweithredu dros Abertawe Well. Gwneir gwaith yn ystod 2013/14 i fireinio'r cynllun a'i fesurau perfformiad cysylltiedig ymhellach a gwreiddio'r cynllun newydd yn nhrefniadau rheoli a gwella perfformiad y cyngor.

Dengys Table 1 isod y rhyngddibyniaeth rhwng Cynllun Un Abertawe (Cynllun Integredig Sengl), ymrwymiadau polisi'r cyngor a'r Cynllun Gwella Corfforaethol newydd ar gyfer 2013-17.

**Tabl 1 – Y rhyngddibyniaeth rhwng Cynllun Un Abertawe, ymrwymiadau polisi'r cyngor a'r Cynllun Gwella Corfforaethol ar gyfer 2013-17.**

| **Cynllun Un Abertawe** | | **Cynllun Gwella Corfforaethol 2013-17** | |
|---|---|---|---|
| **Canlyniadau i'r Boblogaeth** | **Her a Rennir** | **Ymrwymiadau Polisi** | **Amcan Gwella** |
| A. Dechrau da mewn bywyd i blant | 1. Pwysau geni isel<br>2. Cam-drin yn y cartref<br>3. Parodrwydd i ddechrau'r ysgol | Para. 6 - Gweithredu dros ddinas dysg - Dechrau Da ac Iach i'n Holl Blant<br><br>Para 9 - Gweithredu dros Wasanaethau Iechyd a Chymdeithasol o Safon - Atal, Nid Methiant | 1. Darparu cefnogaeth i blant yn Abertawe yn ystod y blynyddoedd cynnar fel y byddant yn barod i ddysgu a gwneud cynnydd datblygiadol.<br><br>2. Mae pobl yn ddiogel, yn iach ac yn cael eu cefnogi i fyw'n annibynnol (Plant a Theuluoedd) |

| Cynllun Un Abertawe | | Cynllun Gwella Corfforaethol 2013-17 | |
|---|---|---|---|
| **Canlyniadau i'r Boblogaeth** | **Her a Rennir** | **Ymrwymiadau Polisi** | **Amcan Gwella** |
| B. Mae pobl yn dysgu'n llwyddiannus | 1. Presenoldeb ysgol<br>2. Cyflawniad ysgol<br>3. Cymwysterau oedolion | Para. 6 - Gweithredu dros Ddinas Dysg - Uchelgeisiol dros Abertawe | 3. Cefnogi gwella presenoldeb ysgol a chyrhaeddiad pob dysgwr rhwng 3 a 19 oed fel y gall pob un gyflawni ei botensial |
| C. Swyddi da i bobl ifanc ac oedolion | 1. Diweithdra ieuenctid<br>2. Anweithgarwch economaidd<br>3. Enillion cyfartalog<br>4. Perfformiad economaidd | Para. 7 - Gweithredu dros Swyddi ac Adfywio | 4. Datblygu partneriaethau, sgiliau ac isadeiledd er mwyn denu a meithrin economi ar sail gwybodaeth, gan greu swyddi yn y sectorau allweddol. |
| Ch. Safon byw dda i bobl | 1. Tlodi plant<br>2. Incwm aelwydydd<br>3. Dyled bersonol | Para. 7 - Gweithredu dros Swyddi ac Adfywio - Adfywio a Gwrthdlodi | 5. Hyrwyddo opsiynau credyd a chynilo fforddiadwy a helpu pobl i fwyafu eu hincwm a'u hawliau. |
| D. Mae pobl yn iach, yn ddiogel ac yn annibynnol | 1. Marwolaethau cynnar ataladwy<br>2. Disgwyliad oes<br>3. Annibyniaeth Pobl Hŷn<br>4. Trosedd | Para. 11 - Gweithredu dros y Gorau ym Myd y Celfyddydau, Diwylliant a Chwaraeon - Dinas Chwaraeon<br><br>Para. 13 - Gweithredu dros Amgylchedd Gwell a Chynllunio Gwell - Gwerthfawrogi ein Parciau a'n Mannau Agored<br><br>Para. 9 - Gweithredu dros Wasanaethau Iechyd a Chymdeithasol o Safon - Atal, Nid Methiant | 6. Helpu pobl i ddilyn ffyrdd iach a chynaliadwy o fyw er mwyn gwella eu hiechyd.<br><br>7. Mae pobl yn ddiogel, yn iach ac yn cael eu cefnogi i fyw'n annibynnol (Gwasanaethau i Oedolion) |

| Cynllun Un Abertawe | | Cynllun Gwella Corfforaethol 2013-17 | |
|---|---|---|---|
| **Canlyniadau i'r Boblogaeth** | **Her a Rennir** | **Ymrwymiadau Polisi** | **Amcan Gwella** |
| Dd. Lleoedd da i bobl fyw a gweithio ynddynt | 1. Cludiant cyhoeddus<br>2. Allyriadau carbon<br>3. Ansawdd dŵr<br>4. Ansawdd tai | Para. 10 - Gweithredu dros Dai Gwell<br><br>Para. 13 - Gweithredu dros Amgylchedd Gwell a Chynllunio Gwell | 8. Gwella tai a chyflenwad tai er mwyn cynyddu argaeledd tai fforddiadwy o ansawdd da.<br><br>9. Lleihau gwastraff a chynyddu ailgylchu trwy hyrwyddo, gweithio ar y cyd ag eraill a thrwy dargedu ardaloedd â chyfradd ailgylchu isel |

Mae pob gwasanaeth yn y cyngor yn cynhyrchu cynllun busnes 4 blynedd. Caiff pob cynllun ei adolygu'n flynyddol ac mae'n disgrifio sut bydd gwasanaethau'r cyngor yn cyflawni eu hamcanion eu hunain ac yn cyfrannu at gyflawni blaenoriaethau'r cynlluniau cymunedol a chorfforaethol. Mae'r cynlluniau'n cysylltu cynllunio gwasanaethau, ariannol a'r gweithlu ac yn golygu bod gwasanaethau'n cael eu cynllunio o fewn fframwaith dyletswyddau ehangach, megis sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu cyflwyno'n gyfartal ac yn deg a'u bod yn gynaliadwy. Yn 2012/13, cafodd cynllunio busnes ei wreiddio a'i fireinio ymhellach o fewn unedau gwasanaeth. Gwneir gwaith ychwanegol yn 2013/14 i wneud Amcanion Gwella newydd y cyngor yn elfen prif ffrwd cynlluniau busnes gwasanaethau.

Yn 2012/13, y Bwrdd Rhaglenni Strategol yw'r corff pennaf o ran gwneud penderfyniadau (ynglŷn â rhaglenni a phrosiectau) yn Ninas a Sir Abertawe. Cafodd rhaglenni/prosiectau allweddol y Rhaglen Strategol eu halinio i strategaeth gyffredinol y cyngor, gan sicrhau bod y nodau a'r amcanion trosgynnol a nodwyd yn y Cynllun Gwella Corfforaethol a chynlluniau allweddol eraill yn cael eu cyflawni.

Mae'r rhaglen strategol yn 2012/13 yn cynnwys prosiectau allweddol i gyflwyno gwelliant eang a chynaliadwy, er enghraifft:

- AoS - codi safonau llythrennedd, cyrhaeddiad a chyflawniad;
- Gwasanaethau Plant a Theuluoedd - diogelu plant diamddiffyn mewn modd cynaliadwy;
- Gofal i Oedolion - trawsnewid gwasanaethau i ateb y galw cynyddol a hyblygrwydd gwasanaethau.
- Rhaglen y Gweithlu - moderneiddio arferion gwaith, systemau tâl ac arfarnu a chael gweithlu sy'n barod i wynebu'r heriau.
- Rheoli Gwastraff - cynyddu ailgylchu a mynd i'r afael â chostau sy'n prysur gynyddu.

- Gwasanaethau Hamdden - cyflwyno modelau newydd i gyflwyno gwasanaethau a chynyddu gweithgarwch corfforol a gwella iechyd ar yr un pryd.

Caiff trefniadau rheoli corfforaethol y cyngor a gweithrediad Bwrdd y Rhaglen Strategol eu hadolygu yn ystod 2013/14 i esbonio'r newidiadau a wnaed i uwch dîm rheoli'r cyngor yn ystod y cyfnod hwnnw.

Mae'r cyngor yn cydymffurfio â'r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Gwella Perfformiad ac yn monitro nifer o fesurau perfformiad ac yn adrodd arnynt. Disgrifir y trefniadau hyn yn yr adolygiad hwn yn Rhan 3 'Meysydd perfformiad eraill'.

**Rheoli risgiau**

Mae cyflwyno amrywiaeth eang o wasanaethau fel hyn, a hynny'n aml yn ôl fframweithiau rheoleiddio ar adeg pan fo cyllidebau ac adnoddau dan straen sylweddol, yn golygu bod y cyngor yn gorfod ymdopi'n fwyfwy ag ansicrwydd a rheoli newid. Ar yr un pryd, mae'r cyngor hefyd dan bwysau cynyddol i gyflwyno gwasanaethau gwell mewn ffyrdd newydd a blaengar. Mae hyn yn golygu bod risgiau (a chyfleoedd) yn anorfod ac mae'n rhaid eu rheoli'n effeithiol.

Caiff risgiau eu rheoliar lefelau gwahanol yn y cyngor, a hynny'n amrywio o brosiectau unigol lle caiff risgiau eu rheoli o fewn y prosiectau unigol hynny, risgiau mewn gwasanaethau ac adrannau a gaiff eu nodi trwy gynlluniau busnes a'u rheoli trwy gofrestrau risg adrannol, i risgiau sy'n effeithio ar y gymuned gyfan, megis peryglon llifogydd, y cânt eu nodi a'u rheoli ar y cyd wedyn gan y cyngor a'i bartneriaid trwy eu trefniadau cydnerthu.

Mae gwybodaeth, ar ba ffurf bynnag, yn ased werthfawr i'r cyngor ac mae'n bwysig bod ein holl risgiau gwybodaeth yn cael eu rheoli'n effeithiol.

Caiff hyn ei gyflawni mewn dwy ffordd. Yn gyntaf, caiff cofrestr risgiau ei llunio gyda meysydd gwasanaeth i ddeall yn fwy clir pa risgiau, yn eu tyb hwy, sydd efallai ynghlwm wrth reoli gwybodaeth a phenderfynu sut gallwn reoli a rhannu gwybodaeth yn fwy effeithlon. Yn ail, trwy gyflwyno rhaglenni ymwybyddiaeth a hyfforddiant. Bydd y rhain yn cynnwys manylion y fframwaith llywodraethu gwybodaeth a'r risgiau a'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig â rhannu gwybodaeth, rheoli gwybodaeth, defnyddio'r rhyngrwyd a'r swyddfa.

**Monitro a chraffu perfformiad**

Mae'n bwysig bod cyflwyno cynlluniau a gwasanaethau'r cyngor yn cael ei fonitro o safbwynt effeithiolrwydd. Mae'r cyngor, trwy'r cabinet a'r byrddau craffu, yn monitro ac yn adrodd am berfformiad gwasanaethau yn erbyn targedau cytunedig yn chwarterol ac yn flynyddol. Mae hyn yn rhoi cyfle i ystyried unrhyw broblemau a'u datrys a hefyd gyfeirio penderfyniadau ar wario a sut mae dyrannu adnoddau eraill. Mae'r cyngor hefyd yn ymgynghori ac yn cysylltu â thrigolion Abertawe ac eraill i gael eu barn am y gwasanaethau a ddarperir ganddo. Mae cwynion a chanmoliaeth gan y cyhoedd a defnyddwyr gwasanaethau hefyd yn ffynhonnell wybodaeth a ddefnyddir i wella gwasanaethau.

Mae craffu'n galluogi aelodau anweithredol i ddwyn cabinet y cyngor i gyfrif am y penderfyniadau mae wedi'u gwneud a pherfformiad gwasanaethau'r cyngor. Maent yn gweithredu fel 'cyfaill beirniadol' i'r Cabinet a phobl eraill yn y cyngor sy'n gwneud penderfyniadau er mwyn hyrwyddo gwasanaethau, polisïau a phenderfyniadau gwell. Yn Abertawe, rheolir y swyddogaeth graffu gan Bwyllgor Rhaglenni Craffu unigol:

- Paneli Ymchwilio: Mae'r rhain yn cynnal ymchwiliadau manwl i feysydd polisi neu wasanaeth. Roedd ymholiadau yn 2012/13 yn cynnwys: Twristiaeth; Gwasanaethau ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal; Tai a Chludiant Cyhoeddus Fforddiadwy.

- Paneli Perfformiad: Mae'r rhain yn monitro a herio perfformiad yn barhaus. Ar hyn o bryd mae tri phanel o'r fath: ysgolion; lles; a gwella gwasanaethau a chyllid.

- Gweithgorau: Mae'r rhain yn ddarnau byr unigryw o waith nad oes angen mwy nag un neu ddau gyfarfod arnynt fel arfer. Mae testunau diweddar wedi cynnwys prydau ysgol, diwygio lles a pherygl llifogydd lleol.

Mae Craffu'n cynhyrchu adroddiad blynyddol bob blwyddyn. Caiff yr adroddiad hwn ei lunio ar ffurf cerdyn sgorio canlyniadau ac mae'n darparu amrywiaeth o fetreg a ddefnyddir i olrhain swm, ansawdd a chanlyniadau gwaith craffu'r cyngor. Yn 2012/13, cwblhaodd y byrddau nifer o adolygiadau manwl, sef:

- Beth yw'r ffordd orau o gefnogi pobl sy'n gadael gofal yn Abertawe?

- Adolygiad o Ganol Ddinas Abertawe.

- Adolygu rôl cynorthwywyr addysgu ar draws y sector cynradd yn Abertawe.

- Adolygiad o Wasanaethau Cefnogi i Ofalwyr yn Abertawe.

Gellir gweld gwerthusiad o'r gwaith a wnaed gan fyrddau craffu'r cyngor ar wefan y cyngor http://www.abertawe.gov.uk/scrutinylibrary.

Ym mis Ebrill 2013 cynhaliwyd gweithdy o gynghorwyr craffu i adolygu effeithiolrwydd y trefniadau presennol ac ystyried y gwersi a ddysgwyd o gymryd rhan yn Astudiaeth Genedlaethol Swyddfa Archwilio Cymru o Effeithiolrwydd Craffu. O'r gweithdy hwn, cafodd pum thema wella i'w craffu eu nodi a'u hadrodd yn yr adroddiad blynyddol, sef:

- Rheoli'r Llwyth Gwaith

- Paratoi am Gyfarfodydd

- Nodi Sgiliau Aelodau

- Gwella Cyfathrebu/Cynyddu Ymwybyddiaeth ac Ymrwymiad

- Adolygu Cynnydd

Ceir yr adroddiad ar gyfer 2012/13 yn http://www.abertawe.gov.uk/scrutinylibrary.

**Cydraddoldeb ac Amrywiaeth**

Mae'r cyngor yn ymrwymedig i drin pobl yn deg ac yn unol â'u hanghenion ym mhob gwasanaeth. Mae rhoi deddfwriaeth newydd ar waith (Deddf Cydraddoldeb 2010 a Rheoliadau Cymru 2011 a Mesur yr Iaith Gymraeg 2011) wedi rhoi ffocws ychwanegoli'r cyngor yn ei waith ar gydraddoldeb ac amrywiaeth a chyflawni gwelliannau a chanlyniadau i staff a chwsmeriaid.

Cafwyd y canlyniadau a'r gwaith canlynol yn 2012/13:

- llunio a chytuno ar Gynllun Cynllun Cydraddoldeb Strategol cyntaf Dinas a SIr Abertawe (2012-16) sy'n amlinellu amcanion cydraddoldeb y cyngor a bwriedir iddo adeiladu ar gyflawniadau ein Cynllun Cydraddoldeb ac Amrywiaeth blaenorol. Er ei fod yn ofyniad cyfreithiol, mae'n rhoi cyfle i ni ddatblygu'n hymrwymiad i gydraddoldeb a thegwch fel sefydliad.

- Er mwyn cydlynu a datblygu mecanweithiau cynnwys y cyngor ychwanegol, sefydlwyd Fforwm Du ac Ethnig Lleiafrifol mewn partneriaeth â Heddlu De Cymru wedi'i gadeirio gan yr hyrwyddwr cydraddoldeb aelodau dros Hil, Crefydd, Cred a Threftadaeth.

- Mae Cynllun yr Iaith Gymraeg (2011-14) yn disgrifio sut bydd Cyngor Dinas a Sir Abertawe'n trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal, gan gynnwys gweinyddu ei fusnes yn gyhoeddus ac wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd. Cynhaliwyd yr adolygiad blwyddyn gyntaf o'r cynllun gweithredu ar gyfer Cynllun yr Iaith Gymraeg a datblygwyd y cynllun gweithredu blwyddyn gyntaf ar gyfer cyflwyno Mwy Na Geiriau (Fframwaith Strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer Gwasanaetahu Iaith Gymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol) yn Adran y Gwasanaethau Cymdeithasol.

- Cynhaliwyd adolygiad blynyddol o Strategaeth Ymgynghori a Chynnwys a Chynllun Gweithredu gan gynnwys archwiliad o'r holl archwilio a chynnwys a wnaed yn y meysydd gwasnaaeth yn ystod y flwyddyn.

- Rhoddir cefnogaeth i sefydlu Pwyllgor Cydraddoldeb a gwaith pencampwyr cydraddoldeb aelodau newydd.

- Sicrhawyd mwy o gydlyniad a dealltwriaeth o ariannu'r trydydd sector yn Abertawe trwy gwblhau cronfa ddata trawsgynghorol o arian y cyngor a roddir i sefydliadau gwirfoddol.

- Ymgynghorwyd â phobl dros 50 oed ac eraill ynghylch cynigion Llywodraeth Cymru i roi trydydd cam y Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn ar waith.

- Cytunwyd ar Gytundeb Cymunedol y Lluoedd Arfog ac fe'i llofnodwyd.

Cafodd trefniadau'r cyngor i asesu swyddogaethau, polisïau a gweithdrefnau arfaethedig y cyngory a adolygwyd am eu heffaith ar grwpiau gwahanol eu

haddasu i fodloni gofynion rheoliadau; cafodd cyllideb y cyngor ar gyfer 2013/14 ei hasesu o safbwynt ei heffeithiau ac mae ar gael yma:

http://www.abertawe.gov.uk/index.cfm?articleid=13264

Dengys Tabl 2 isod y cysylltiadau a'r dibyniaethau rhwng Amcanion Gwella'r cyngor yn 2012/13 ac Amcanion Cydraddoldeb a chynlluniau perthnasol eraill y cyngor.

**Tabl 2 – Y rhyngddibyniaeth rhnwg Cynllun Gwella, cynlluniau eraill ac Amcanion Cydraddoldeb perthnasol y cyngor yn 2012-13**

| Ein Hamcanion Gwella ar gyfer 2012-13 | Y partneriaid y buom yn gweithio gyda hwy ar hyn | Amcanion y Cynllun Cydraddoldeb Strategol | Gweithgareddau gwella eraill y cyngor sy'n gysylltiedig â'r amcan hwn yn 2012-13 |
|---|---|---|---|
| Amcan Gwella 1: Sicrhau bod gan oedolion ifanc, pobl hŷn a gofalwyr fwy o ddewis a rheolaeth dros y gefnogaeth y maent yn ei derbyn drwy drawsnewid gwasanaethau cymdeithasol i oedolion. | Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg(PABM).<br><br>Darparwyr gofal cymdeithasol allanol. | Amcan Cydraddoldeb 18 - Gwella mynediad i ddarpariaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol, gan sicrhau bod anghenion defnyddwyr y gwasanaeth yn ganolog i'r holl weithgareddau cynllunio a chomisiynu. | Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles.<br><br>Cynllun Cyflwyno Strategol y Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion.<br><br>Rhaglen Trawsnewid y Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion. |
| Amcan Gwella 2: Sicrhau bod plant diamddiffyn yn cael eu diogelu a'u cefnogi trwy gynnal a pharhau â gwelliannau i'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd. | Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc<br><br>Bwrdd Diogelu Plant Abertawe | Amcan Cydraddoldeb 14 - Lleihau'r anghydraddoldebau yn neilliannau iechyd, addysg ac economaidd plant sy'n byw mewn tlodi, trwy wella deilliannau'r tlotaf. | Cynllun Cyflwyno Strategol Plant a Theuluoedd.<br><br>Rhaglen Strategol Plant a Theuluoedd. |
| Amcan Gwella 3: Gwella deilliannau dysgu a helpu disgyblion i gyflawni eu potensial | Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc<br><br>Consortiwm Rhanbarthol De-orllewin a Chanolbarth Cymru o awdurdodau lleol (swamwac) | Amcan Cydraddoldeb 14 - Lleihau'r anghydraddoldebau yn neilliannau iechyd, addysg ac economaidd plant sy'n byw mewn tlodi, trwy wella deilliannau'r tlotaf. | Cynllun Busnes Addysg.<br><br>Cynllun Plant a Phobl Ifanc.<br><br>Rhaglen Strategol AoS 2020. |

| Ein Hamcanion Gwella ar gyfer 2012-13 | Y partneriaid y buom yn gweithio gyda hwy ar hyn | Amcanion y Cynllun Cydraddoldeb Strategol | Gweithgareddau gwella eraill y cyngor sy'n gysylltiedig â'r amcan hwn yn 2012-13 |
|---|---|---|---|
| Amcan Gwella 4: Lleihau gwastraff a chynyddu compostio ac ailgylchu trwy hyrwyddo a hwyluso cyflwyno gwasanaethau rheoli gwastraff ac ailgylchu | Fforwm yr Amgylchedd Abertawe.<br><br>Fforwm Gwastraff Abertawe.<br><br>SCRAP (Partneriaeth Cynghrair Ailgylchu Cymunedol Abertawe. | Amcan Cydraddoldeb 26 - Gwella prosesau a gweithdrefnau mewnol yn y gwasanaethau sy'n ymwneud ag amgylchedd Abertawe er mwyn sicrhau bod ystyriaethau cydraddoldeb nid yn unig yn cael eu cynnwys ond bod y canlyniadau sy'n dilyn wedi'u seilio ar yr wybodaeth berthnasol | Strategaeth Rheoli Gwastraff/Cynllun Busnes.<br><br>Rhaglen Strategol Rheoli Gwastraff |
| Amcan Gwella 5: Gwella cyflogadwyedd pobl trwy gynyddu effaith rhaglen adfywio'r cyngor i gynnig a hwyluso hyfforddiant a lleoliadau gwaith | Partneriaeth Adfywio Economaidd Abertawe<br><br>Bwrdd Gwasanaethau Lleol<br><br>Awdurdodau lleol eraill<br><br>Mentrau Bach a Chanolig | Amcan Cydraddoldeb 1 - Sicrhau bod ymgynghori a chynnwys yn gynhwysol a chynrychiadol.<br><br>Amcan Cydraddoldeb 3 - Adolygu holl bolisïau AD i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'n rhwymedigaethau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.<br><br>Amcan Cydraddoldeb 7 - Cydymffurfio â'n dyletswydd i gyhoeddi Data Gweithlu/Gwybodaeth Gyflogaeth<br><br>Amcan Cydraddoldeb 14 - Lleihau'r anghydraddoldebau yn neilliannau iechyd, addysg ac economaidd plant sy'n byw mewn tlodi, trwy wella deilliannau'r tlotaf. | Strategaeth Adfywio Economaidd Abertawe 2020.<br><br>Cynllun Busnes Adfywio a Chynllunio<br><br>Rhaglen adfywio. |

## Datblygu Cynaliadwy

Mae Dinas a Sir Abertawe yn ymrwymedig i ddatblygu a chefnogi cymuned sydd wedi'i seilio ar ddatblygu cynaliadwy. Mae'r cyngor yn diffinio datblygiad

cynaliadwy fel a ganlyn: ***“Datblygu sy'n diwallu anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain”.***

Bu'n ofynnol i lywodraeth leol ers sawl blwyddyn i hyrwyddo datblygu cynaliadwy a gwella perfformiad. Yn 2013/13, bu Dinas a Sir Abertawe'n gweithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fel ei Awdurdod Model Awdurdod dros Ddatblygu Cynaliadwy, gan archwilio meysydd llywodraethu ar draws y sefydliad i wneud datblygiad cynaliadwy yr egwyddor drefniadol ganolog.

Yn 2012/13, roedd y cyngor yn arddangos ei ymrwymiad ac yn darparu arweinyddiaeth ar gyfer datblygu cynaliadwy trwy benodi Aelod Cabinet dros Gynaladwyedd ac mae wedi gwneud cynnydd yn y rhan fwyaf o'r saith maes blaenoriaeth allweddol a nodwyd yn y model Datblygu Cynaliadwy i Wella Perfformiad, er y cafwyd gostyngiad o ran perfformiad mewn rhai ardaloedd. Bob blwyddyn mae'r cyngor yn cyhoeddi Adroddiad Datblygu Cynaliadwy sy'n darparu atebolrwydd cyhoeddus am ddatblygu cynaliadwy ac asesiad clir o effeithiolrwydd Polisi Datblygu Cynaliadwy y cyngor.

Ceir mwy o wybodaeth yn
www.abertawe.gov.uk/sustainabledevelopmentreporting .

Mae'r cyngor wedi buddsoddi mewn ceir trydan, cerbydau hybrid a gwelliannu i adeiladau a chartrefi er mwyn lleihau costau tanwydd ac allyriadau carbon. Mae ysgolion Abertawe wedi mwy na dyblu nifer y Gwobrau Eco-Ysgol eleni. Bu cynnydd yn swm y gwastraff sy'n cael ei ailgylchu a gostyngiad yn y swm sy'n mynd i safleoedd tirlenwi; fodd bynnag, collwyd y targed ar gyfer eleni o drwch blewyn. Mae'r ffigurau ar gyfer pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn parhau i wella a rhagori ar rhagfynegiadau targed. Mae Hyfforddiant Cyflogaeth yn defnyddio cynaladwyedd amgylcheddol yn llwyddiannus ar draws y cwricwlwm a chafwyd cynnydd yn y canlyniadau cadarnhaol mewn cynlluniau prentisiaeth. Mae gwerth tybiannol contractau Dinas a Sir Abertawe â chymalau budd cymdeithasol wedi cynyddu dros £20m.

**Ymagwedd gorfforaethol a phenodol i waith gwella**

Mae'r cyngor wedi datblygu ymagwedd bwrpasol a chorfforaethol at wella perfformiad mewn meysydd lle mae angen gwelliannau sylweddol. Cafodd yr ymagwedd ei datblygu fel rhan o ymateb llwyddiannus y cyngor i welliannau a oedd yn ofynnol yn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd.

Mae'n cynnwys sefydlu bwrdd gwella corfforaethol o dan arweiniad y Prif Weithredwr ac aelodau perthnasol o'r uwch-dîm rheoli gyda chefnogaeth arbenigedd ar draws y cyngor. Mae hyn yn darparu llywodraethu, rheolaeth a goruchwyliaeth effeithiol i'r gwaith gwella.

Yn cydredeg â'r Bwrdd Gwella Corfforaethol y mae Bwrdd Arweinyddiaeth Wleidyddol o dan gadeiryddiaeth Arweinydd y Cyngor a daw'r aelodau o blith aelodau'r cabinet a chadeiryddion pwyllgorau/craffu perthnasol yn ogystal ag

uwch-reolwyr a swyddogion corfforaethol. Mae'r bwrdd hwn yn darparu arweinyddiaeth wleidyddol a llywio i ymateb y cyngor i'r materion y mae'n rhaid mynd i'r afael â hwy.

Bydd tîm prosiect o dan arweiniad y gwasanaeth perthnasol yn rhoi cynllun gweithredu gwelliannau cytunedig ar waith gyda chefnogaeth gorfforaethol a fydd fel arfer yn canolbwyntio ar berfformiad, ymgynghori â defnyddwyr a rhanddeiliaid a chymharu gwasanaethau â gweddill Cymru ac ar draws y DU.

Mae'r bwrdd craffu perthnasol hefyd yn gweithredu fel 'cyfaill beirniadol' i roi her i benderfyniadau gweithredol sy'n ymwneud ag ymateb y cyngor i wella.

Bydd y gwaith gwella fel arfer yn dod i ben gydag adroddiad i'r cyngor sy'n rhestru argymhellion er gwella.

Roedd y cyngor yn defnyddio'r ymagwedd hon i ymateb i argymhelliad statudol gan Swyddfa Archwilio Cymru ynghylch trefniadau pwyllgorau cynllunio'r cyngor.

Trefniadau'r Pwyllgorau Cynllunio

Gweithiodd y cyngor yn agos gyda'r SAC mewn ymateb i'w pryderon a lluniwyd cynllun gweithredu i:

- Benodi un cadeirydd i'r ddau bwyllgor cynllunio er mwyn hwyluso mwy o gysondeb ynghylch penderfyniadau;
- Sefydlu bwrdd gwella corfforaethol o dan arweiniad y Prif Weithredwr;
- Sefydlu bwrdd arweinyddiaeth wleidyddol o dan arweiniad Arweinydd y Cyngor;
- Rhoi cynllun gweithredu parhaus ar waith gyda chefnogaeth gorfforaethol i ymateb i'r argymhelliad statudol;
- Adolygu trefniadau rheoli perfformiad yn y Gwasanaethau Cynllunio;
- Cymharu trefniadau Abertawe â chynghorau eraill Cymru a Chyngor Harrow;
- Ymgynghori â defnyddwyr a rhanddeiliaid eraill ynglŷn â Gwasanaethau Cynllunio Abertawe.

Mae hyn wedi arwain at gynnydd cyson mewn perfformiad, gyda'r mesurau perfformiad allweddol yn dangos gwelliant dros y flwyddyn ddiwethaf. Dangosodd arolwg o foddhad ymgeiswyr, asiantau a grwpiau â diddordeb gyda'r gwasanaethau ceisiadau cynllunio fod 93% yn fodlon/fodlon iawn yn ystod 2012/13. Mae bellach gwasanaeth cyn cais ar gael i ddatblygwyr a chymorthfeydd galw heibio i ddeiliaid tai. Mae mesurau TGCh yn cael eu gwella er mwyn cyflymu'r gwasanaeth proffesiynol presennol, a fydd yn cynyddu boddhad o ganlyniad.

Addysg – Arolygiad Estyn o'r Awdurdod Addysg Lleol 2013

Mae'r Prif Weithredwr wedi sefydlu bwrdd gwella i weithredu ar faterion a amlygwyd yn arolygiad diweddar Estyn o'r awdurdod addysg lleol. Mae'r bwrdd wedi cwrdd unwaith a bydd yn parhau i gwrdd yn rheolaidd. Mae cynllun gweithredu'n cael ei lunio i ymateb i'r argymhellion a'r pryderon a nodwyd yn adroddiad arolygiad Estyn. Caiff y Cynllun Gweithredu Ôl-Arolygiad (CGOA) ei gyflwyno i Estyn ar ôl cyhoeddi'r adroddiad am arolygiad Abertawe. Caiff y camau gweithredu yn y CGOA eu cynnwys hefyd yng nghynllun busnes a chynlluniau gweithredu gwasanaeth yr Adran Addysg a chaiff cynnydd ei adrodd i'r Bwrdd Gwybodaeth a thrwy'r dulliau adrodd arferol ar gyfer cynlluniau pwysig.

**Ble i gael mwy o wybodaeth**

*Gweithredu dros Abertawe* Cynllun Gwella Corfforaethol 2013-17

Lluniwyd y ddogfen hon gan y Gwasanaeth Cyflwyno a Gwybodaeth ar ran y cyngor. Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu sylwadau ar gynnwys y cynllun hwn, gallwch gysylltu â'r Tîm Perfformiad Busnes, Perfformiad a Phrosiectau Strategol, trwy E-bostiwch improvement@swansea.gov.uk Ffoniwch 01792 636852. Gellir gweld Cynllun Gwella Corfforaethol 2013-17 trwy ddilyn y weddolen ganlynol:

http://www.abertawe.gov.uk/index.cfm?articleid=155

*Cynllun Un Abertawe*

Os oes gennych ddiddordeb mewn dysgu mwy am *Gynllun Un Abertawe*, gallwch wneud hynny ar wefan y cyngor trwy glicio ar y weddolen ganlynol:

http://www.abertawe.gov.uk/index.cfm?articleid=52292

Hefyd, os oes gennych unrhyw gwestiynau sy'n ymwneud â *Chynllun Un Abertawe*, gallwch gysylltu â'r Tîm Strategaeth Gymunedol trwy:

scrutiny@swansea.gov.uk

*Adroddiadau'r Bwrdd Craffu*

http://www.abertawe.gov.uk/index.cfm?articleid=36785

*Bwrdd Gwasanaethau Lleol*

Gwefan: www.abertawe.gov.uk/LSB

*Cydraddoldeb ac Amrywiaeth*

http://www.abertawe.gov.uk/equalityscheme

*Datblygu Cynaliadwy*

http://www.abertawe.gov.uk/index.cfm?articleid=4275

*Adroddiadau Arolygu Swyddfa Archwilio Cymru*

http://www.wao.gov.uk/reportsandpublications/localgovernment_687.asp

*Adroddiadau Arolygu Estyn*

http://www.estyn.gov.uk/english/inspection/inspection-reports/?searchTitle=&searchType=All&localAuthority=51&searchPostcode=&searchDistance=10&submitted=1

*Adroddiadau Arolygiadau Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC)*

http://www.csiw.wales.gov.uk/dataviewer/index.asp?searchtext=Enter+Name&postcode=Postcode&authority=SWA&region=&results=true&settings=